# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 21 TACHWEDD, 2016 am 2.00 y prynhawn | | MONDAY, 21 NOVEMBER, 2016 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G O Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R. Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter.S.Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PHLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeining / The Roman Catholic Church);
Parch/Rev Canon Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

3 **COFNODION CYFARFOD 12 MEDI, 2016** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- 12 Medi, 2016
- 19 Hydref, 2016 (cyfarfod y Gyllideb)

4 **MONITRO PERFFORMIAD : CERDYN SGORFWRDD CORFFORAETHOL CH2 2016/17** (Tudalennau 19 - 34)

Cyflwyno'r Cerdyn Sgorfwrdd Corfforaethol am Chwarter 2 2016/17.

5 **MONITRO'R GYLLIDEB: Y GYLLIDEB REFENIW CH2 2016/17** (Tudalennau 35 - 48)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Refeniw am Chwarter 2 2016/17.

6 **MONITRO'R GYLLIDEB: Y GYLLIDEB GYFALAF CH2 2016/17** (Tudalennau 49 - 60)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf am Chwarter 2 2016/17.

7 **LLYFRGELLOEDD YN GWNEUD GWAHANIAETH - PUMED FFRAMWAITH ANSAWDD SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU 2014/17: ADRODDIAD BLYNYDDOL CSYM 2015/16** (Tudalennau 61 - 92)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Dysgu.

8 **NEWIDIADAU I'R POLISI CODI TÂL - GWASANAETHAU GOFAL CARTREF** (Tudalennau 93 - 102)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

9 **NEWIDIADAU I'R POLISI CODI TÂL - GWASANAETHAU TELEOFAL** (Tudalennau 103 - 110)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

10 **EITEM ER GWYBODAETH - Y GWASANAETH ANABLEDD DYSGU CYMUNEDOL** (Tudalennau 111 - 114)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

11 **EITEM ER GWYBODAETH - BLAENRHAGLEN WAITH** (Tudalennau 115 - 118)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2016

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd R Meirion Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Lewis Davies, Llinos Medi Huws, Victor Hughes, Robert Llewelyn Jones, Peter S Rogers

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM)
Rheolwr Caffael Corfforaethol (SR)
Rheolwr Busnes a Thrawsnewid Strategol (DB)
Rheolwr y Rhaglen Trawsnewid Gofal i Oedolion Hŷn (EW)
Rheolwr Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) (IR)
Rheolwr Sgriwtini (BS)
Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Jim Evans
Mr Keith Roberts (Aelod Cyfetholedig - Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai)
Y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Ynys Ynni, Prosiectau Mawr a'r Iaith Gymraeg)

1. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar y canlynol: -

**Cofnodion 11 Gorffennaf , 2016**

**Eitem 3 - Diweddariadau gan Aelodau**

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini bod y Pennaeth Trawsnewid wedi rhoi crynodeb o'r prif bwyntiau a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol, a daeth i'r casgliad mai'r fformat gorau i Aelodau adrodd yn ôl o Fyrddau'r Rhaglen Drawsnewid a'r Byrddau Prosiect fyddai trwy Ddangosfwrdd a fyddai'n cynnwys gwybodaeth ynghylch cynnydd a wneir gyda'r rhaglenni, y prosiectau a'r tasgau sy'n gysylltiedig â phob Bwrdd. Mae hyn bellach wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad ar y Cerdyn Sgorio a gaiff sylw bob chwarter gan y Pwyllgor. 'Roedd y Pwyllgor yn pryderu y gellid gofyn i'r Aelodau am atborth ar y cynnydd mewn perthynas â'r rhaglenni, y prosiectau a'r tasgau cysylltiedig, ac y gellid eu herio nhw gan mai Aelodau Portffolio a swyddogion sy'n atebol am gyflawni mewn perthynas ag unrhyw faterion oherwydd mai nhw yw cynrychiolwyr y Byrddau Rhaglen a Phrosiect. Nodwyd nad hon oedd y ffordd ymlaen a gynigir.

Holodd yr Aelodau ynghylch eu rolau ar y Byrddau Rhaglen a Phrosiect a thynnwyd sylw at anghysondebau o ran adrodd yn ôl o gyfarfodydd. Gofynnwyd am eglurhad ar y swyddogaeth adrodd.

Mewn ymateb, rhoddodd y Prif Weithredwr enghraifft o'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Addysg sy'n cynnwys y rhaglen moderneiddio ysgolion fel rhan o'i gylch gwaith. Nodwyd bod perfformiad a moderneiddio ysgolion (sy'n rhan o'r rhaglen codi safonau) yn faterion sy'n cael sylw gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, ac mai'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio sy'n rhoi sylw i rai agweddau eraill e.e trefniadau partneriaeth.

Adroddwyd gan y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes mai diben cynrychiolaeth Sgriwtini ar y Byrddau Trawsnewid Corfforaethol a'r Byrddau Partneriaeth a Llywodraethu yw nodi, trwy Gadeirydd pob Bwrdd, y materion hynny a allai elwa o gymorth sgriwtini pellach.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y Cadeirydd yn cyfleu i'r Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol bryderon y Pwyllgor fel y nodir nhw uchod mewn perthynas ag atborth o'r Byrddau Rhaglen a Phrosiect.**
- **Egluro rolau a chyfrifoldebau cynrychiolwyr Sgriwtini ynghylch tasgau, prosiectau a rhaglenni cyn y cyfarfod nesaf.**
- **Bod yr Aelodau Sgriwtni ar Fyrddau'r Rhaglen Drawsnewid Gorfforaethol yn nodi materion i'w cynnwys ar Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini ar y cyd â Chadeirydd y ddau Fwrdd.**

**Eitem 4 - Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2015-16**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ynghylch heriau o fewn y system gofal cartref gyfredol a'r newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r dyfodol.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod y gwaith mewn perthynas â heriau yn y Gwasanaethau Plant wedi cael ei wneud ac y bydd yn cael ei adlewyrchu yn fersiwn derfynol yr adroddiad a fydd yn cael sylw yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Sir.

**Dim camau pellach.**

**Eitem 6 - Rhaglen Waith Sgriwtini**

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini na chafwyd yr eglurder y gofynnwyd amdano ynghylch themâu perthnasol ac ansawdd yr adroddiadau yn unol â'r argymhelliad. Nodwyd efallai bod angen tynhau'r argymhellion ar y Rhaglen Waith.

**Dim camau pellach.**

## 3. DIWEDDARIADAU GAN AELODAU

Trafodwyd yr eitem hon dan eitem 2 yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2016.

**PENDERFYNWYD bod diweddariadau gan yr Aelodau yn cael eu cofnodi trwy Ddangosfwrdd yn y dyfodol fel rhan o'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol.**

## 4. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 1, 2016/17

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol a oedd yn portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ar ddiwedd Chwarter 1.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r Cerdyn Sgorio, a nodwyd y materion canlynol: -

- Cost absenoldeb mamolaeth a thadolaeth - nid yw ar y Cerdyn Sgorio;
- Rheolaeth Ariannol - (4 coch – statws Coch / Ambr / Gwyrdd (statws CAG) - gorwariant o 300k ar hyn o bryd. Dim pryderon ariannol ar hyn o bryd.
- Amrywiad o 87% o ran costau asiantaeth (statws Coch) - yn uwch na'r disgwyl, ond nid oes unrhyw bryder mawr yn Ch1.
- Gofal cwsmeriaid - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth - dim digon o staff i ddelio â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth? Mae llawer o geisiadau mewn perthynas ag un pwnc, 2% o wahaniaeth ers y llynedd. Mae'r sefyllfa gyfredol

yn llawer gwell gan fod 76% o’r ceisiadau wedi eu hateb. Sicrwydd bod yr UDA yn trafod ffigyrau gyda gwasanaethau perthnasol i wella perfformiad.

- Galwadau ffôn - y duedd yn mynd i lawr, dim pryderon ar hyn o bryd, yn dal i fod o fewn y targed corfforaethol (statws Gwyrdd).
- Ysgolion – angen gostwng y gyfradd salwch yn yr ysgolion.

Dywedodd y Pwyllgor fod yr Aelodau wedi gofyn am ddadansoddiad o gostau tybiedig salwch i'r Awdurdod ond nad yw wedi dod i law hyd yma. Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes (GM) fod cost dybiannol salwch wedi'i gynnwys yn y Cerdyn Sgorio ar gyfer y llynedd. Penderfynwyd yn y gweithdy a fynychwyd gan y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Gwaith Cysgodol a'r UDA a fu’n adolygu'r Cerdyn Sgorio y dylid tynnu’r ffigyrau ar gyfer eleni, oherwydd gallant fod yn gamarweiniol, ac mae angen gwneud gwaith llawer manylach.

Nodwyd y byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith yn Chwarter 3 (argymhelliad 3.1.4 yr adroddiad) ar waith sy’n ymwneud â salwch, ac awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor aros am y diweddariad hwn yn hytrach na gofyn am diweddariad ar gyfer y cyfarfod nesaf. Gan gyfeirio at yr argymhelliad uchod, gofynnwyd am eglurhad ynghylch pryd y byddai materion salwch yn destun sgriwtini gan fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei raglennu i’w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

Gan gyfeirio at argymhelliad 3.1.3, gofynnwyd am eglurhad ynghylch aelodaeth y panel her salwch. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y panel yn cynnwys y canlynol: Y Prif Weithredwr, Prif Weithredwyr Cynorthwyol; aelodau eraill o'r UDA sy'n cydgysylltu â Phenaethiaid Gwasanaeth a chynrychiolwyr Adnoddau Dynol.

Cyfeiriwyd at y Dangosfwrdd a chafwyd diweddariad gan y Rheolwr Rhaglen am statws CAG tasgau, prosiectau a rhaglenni’r Cyngor.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith: -**

- **Derbyn yr adroddiad.**
- **Mewn perthynas ag argymhelliad 3.1.1, gofyn am ychwanegiad at yr argymhelliad ‘a meysydd sy’n llithro '.**
- **Bod y Pwyllgor yn derbyn y mesurau lliniaru a amlinellwyd yn yr adroddiad ac felly nid yw wedi gwahodd unrhyw swyddogion yn y cyfnod hwn gan mai dim ond Ch1 ydyw, ond cydnabyddir bod angen monitro’r Gwasanaethau Plant yn agos, ac felly mae’n dymuno gwahodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant i adrodd yn y cyfarfod chwarterol nesaf;**
- **O ran yr argymhellion sy'n weddill, mae'r Pwyllgor yn dymuno cadw ei sylwadau hyd nes y derbynnir adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru fel y cyfeirir ato yn argymhelliad 3.1.4. yr adroddiad.**

- **Gofyn am gopi o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i gynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith o ran materion cyn-sgriwtini.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2016/17 - CHWARTER 1

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol a'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer 2016/17. 'Roedd crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd Mehefin, 2016 ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad.

Adroddodd y Pennaeth Adnoddau fod yr adroddiad Chwarter 1 yn rhoi arwydd cynnar o unrhyw bwysau cyllidebol sylweddol a ragwelir. Dywedodd bod tanwariant eleni ond nad yw'n sylweddol ac y bydd yn cael ei ariannu o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor o £7m. Nid yw'r gorwariant a ragwelir o £0.3m yn bryder mawr i'r Cyngor ar hyn o bryd.

Mynegwyd pryder gan yr Aelodau ynghylch y diffyg o ran yr incwm o feysydd parcio a'r ffaith nad yw'n ariannu ei hun. Nodwyd bod y gyllideb ar gyfer ffioedd o'r peiriannau meysydd parcio yn dod ag incwm i mewn, sy'n warged ar gyfer y Cyngor. Mae'r elfen orfodfaeth - rhoi dirwyon ar gyfer parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd, erlyniadau, cyflogau cynorthwywyr y meysydd parcio - yn cael eu sybsideiddio gan y Cyngor. Nodwyd bod angen gwella gorfodaeth ac annog pobl i dalu.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith: -**

- **Ei fod yn nodi'r sefyllfa a nodir mewn perthynas â'r perfformiad ariannol hyd yn hyn.**
- **Argymell i'r Pwyllgor Gwaith bod unrhyw incwm dros ben o Datblygiadau Cynllunio Mawr yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn glustnodedig ar ddiwedd y flwyddyn i ariannu cymorth yr Awdurdod tuag at ddatblygiadau mawr yn y dyfodol.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB GYFALAF 2016/17 - CHWARTER 1

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.  'Roedd crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Mehefin, 2016 ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau pam nad oedd darpariaeth ariannol wedi ei gwneud ar gyfer peiriant telegludo a phont bwyso newydd ym Mhenhesgyn.  Awgrymwyd y gallai rhentu fod yn ddewis gwell na phrynu peiriant telegludo yn y dyfodol.

Ymatebodd y Pennaeth Adnoddau nad yw’n rhan o'r Cynllun Cyfalaf, pan fo’r Cyngor yn prynu cerbydau, i wneud darpariaeth ariannol i brynu peiriannau newydd ar ddiwedd eu hoes gweithredol. Fodd bynnag, dywedodd bod angen i’r Cyngor sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer pryniannau yn y dyfodol, gan nad yw'n bolisi gan y Cyngor i rentu neu brydlesu cerbydau gan y byddai’r costau’n dod o’r gyllideb refeniw. Defnyddir grantiau cyffredinol ar gyfer pryniannau cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i brynu cerbydau ac nid ydynt yn effeithio ar y gyllideb refeniw. Prynir cerbydau newydd yn unol â Pholisi Caffael y Cyngor.

Codwyd cwestiwn gan Aelod am y risgiau sy'n gysylltiedig â’r cynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf mewn perthynas â'r canlynol: -

- Prosiect Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain;
- Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP)
- Cynllun Ffordd Gyswllt Llangefni
- Cynllun Atal Llifogydd Biwmares
- Seilwaith Strategol Caergybi & Llangefni

Ymatebodd y Pennaeth Adnoddau bod risg sylweddol gyda phrosiectau a ariennir â Grant Cyfalaf y gallai Llywodraeth Cymru dynnu cyllid yn ôl os nad yw amserlenni a thargedau yn cael eu bodloni. Nodwyd bod risgiau bod cynlluniau’n llithro pan fo gwaith yn dechrau ar brosiectau e.e. cynlluniau ysgolion. Nid oes unrhyw brosiectau mewn perygl ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod prosiectau yn cael eu cwblhau ar amser. Os ceir tywydd drwg neu os bydd amgylchiadau annisgwyl sy’n achosi oedi, yna byddai angen i'r Cyngor drafod gyda Llywodraeth Cymru i ailbroffilio grantiau. Nodwyd ymhellach y byddai'r grant VVP yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ac y byddai unrhyw arian na chafodd ei wario’n cael ei golli.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith: -**

- **Ei fod yn nodi cynnydd y gwariant a’r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.**
- **Ei fod yn nodi'r newid yn y prosiect cyfalaf ar gyfer y cynllun rheoli gwastraff, i brynu peiriant telegludo a phont bwyso newydd.**

## 7. TENDRO AR GYFER GOFAL CARTREF AR YNYS MÔN

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ar ddarparu pecynnau gofal sy'n cydymffurfio â gofynion rheolau sefydlog caffael yr Awdurdod.

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gofal i Bobl Hŷn wedi archwilio opsiynau a chytunwyd mai comisiynu sy'n seiliedig ar ardaloedd penodol yw'r ffordd ymlaen i gryfhau'r ddarpariaeth bresennol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn amodol ymrwymedig i gydgomisiynu gofal cartref yn y dyfodol.

Bwriedir mynd allan i dendro ar gyfer tair lot sy’n seiliedig ar dair ardal ddaearyddol h.y. Gogledd, Canol a De'r ynys. Bydd cytundebau newydd yn cael eu rhoi ar waith yn raddol dros gyfnod o ddeuddeng mis, a bydd y broses dendro yn dechrau ym mis Hydref / Tachwedd, 2016. Cynhelir digwyddiadau 'Cwrdd â'r Prynwr' i gynorthwyo'r broses dendro.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a dywedodd wrth y Pwyllgor fod saith darparwr allanol yn darparu gofal cartref ar Ynys Môn ar hyn o bryd. Cyfeiriodd at broblemau a gafwyd gyda'r pecynnau 'dewis a dethol', nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn rhai ardaloedd sy’n golygu bod rhaid i ddarparwyr mewnol gymryd y gwaith. Cynigir y bydd yn rhaid i ddarparwyr edrych ar bob pecyn gofal yn ddieithriad. Bydd y gwasanaeth newydd yn dechrau ym mis Mai y flwyddyn nesaf, a bydd pecynnau llai dwys yn cael sylw gyntaf.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod materion / heriau o fewn y Gwasanaeth yn ddyddiol ac adroddodd ar y pwyntiau canlynol: -

- Bod perfformiad ynghylch pobl sy'n gadael yr ysbyty wedi gwaethygu a bod angen mynd i'r afael â’r mater;
- Nid yw’r ddarpariaeth gofal yn gyson ar draws ac nid yw hynny’n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol;
- Mae angen mynd allan i’r farchnad i fodloni rheolau sefydlog y Cyngor;
- Mae trafodaethau cychwynnol wedi eu cynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth i fodloni manyleb y Gwasanaeth Oedolion;
- Mae angen cryfhau'r farchnad a’r cymorth sydd ar gael yn y tymor canol a'r tymor hir, er mwyn galluogi darpariaeth sy’n cwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn gyson;
- Gallai nifer fach o ddarparwyr gyflawni rhai darpariaethau, ond ni fyddent yn cwrdd ag anghenion y pecynnau dwysach;
- Bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn y dyfodol ac yn gobeithio mynd allan i’r farchnad gyda phecynnau gofal;
- Mae rhai defnyddwyr gwasanaeth yn cael pecynnau gofal yn y cartref ac mae pecynnau diwedd oes hefyd;
- Bydd gan y contractwyr mawr gyfle i is-gontractio;
- Taliadau uniongyrchol - cynnig pecyn ariannol. Amlygwyd pwysigrwydd cynyddu nifer y taliadau uniongyrchol;
- Arwyddo contract am gyfnod o amser;
- Gall ddod â phobl i dasg;

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y bydd mynd allan i'r farchnad yn lleihau'r risg mewn perthynas â sicrhau darpariaeth tymor hir ac yn cryfhau'r

ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio gyda darparwyr, o ran cydweithio â defnyddwyr gwasanaeth a materion ansawdd.

Cododd yr Aelodau y materion / heriau canlynol yn ystod y drafodaeth: -

- Gwnaed cais am i gynrychiolydd o BIPBC fynychu'r Pwyllgor Sgriwtini i drafod heriau o fewn y Gwasanaeth. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol fod trefniadau wedi eu gwneud i gynrychiolydd o BIPBC fynychu'r Pwyllgor Sgriwtini  Partneriaeth ac Adfywio ym mis Tachwedd.
- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a fyddai'r Gwasanaeth yn parhau i gyflogi pobl leol, gan fod pryderon wedi eu mynegi y gallai defnyddwyr gwasanaeth golli eu darparwyr gwasanaeth cyfredol. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y bydd angen cynnwys cymalau o'r fath y manylebau. Dywedodd ei fod yn gobeithio y bydd darparwyr yn gallu darparu gwasanaeth yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth, gan sicrhau bod modd cynnal y cyswllt lleol. Dywedodd ymhellach y bydd heriau mewn rhai ardaloedd lle nad oes digon o ddarparwyr gofal lleol
- Codwyd cwestiwn ynghylch pam mai dim ond tair ardal a ddynodwyd o dan y cynllun. Ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod nifer y darparwyr gwasanaeth yn isel ar hyn o bryd a bod angen mynd i'r afael â hynny, ynghyd â materion ansawdd. Dywedodd fod y gwasanaeth wedi ceisio rhannu'r  ynys yn dair ardal gyfartal, gyda'r bwriad o greu darparwyr cryf a chadarn. Cyfeiriwyd at arbedion maint, a fydd yn ymarferol y dyfodol. Gydag ardaloedd llai mae busnes yn tueddu i fod yn wannach.
- Gofynnwyd am eglurhad ar sut mae'r Cyngor yn rheoli ansawdd e.e. beth fyddai'n digwydd os yw darparwr yn mynd i'r wal. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod ymyrraeth gynnar yn allweddol.  O ran asiantaethau sy'n gweithio gyda chontractwyr a bydd ganddo gontractau craidd.
- Gofynnwyd a allai un sefydliad gyflwyno tendr am y tair ardal. Ymatebodd y Rheolwr Caffael na chaiff darparwyr dendro am y tair ardal ar yr un pryd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion y gallai cael un darparwr ar gyfer yr ardal gyfan arwain at fethiant y gwasanaeth. Dywedodd fod swyddogion yn ymwybodol o'r risgiau, a bod gweithdrefnau diogelu rhag maethu eisoes wedi cael eu nodi.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol y cynhelir proses dendro ffurfiol sy'n dilyn canllawiau cenedlaethol, a bydd yn rhaid i ddarparwyr fodloni canllawiau cadarn.

**Awgrymwyd y dylid cynnal sesiwn Friffio i Aelodau cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym mis Tachwedd pryd y bydd cynrychiolydd o BIPBC yn mynychu.**

**Gweithredu:**

**Fel y nodir uchod.**

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn mabwysiadu Opsiwn 3, sef Comisiynu sy'n seiliedig ar ardaloedd, fel y dull gweithredu a ffefrir.**

## 8. PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: DIOGELU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd - adroddiad gan Gadeirydd y Panel Canlyniad Sgriwtini yn amlinellu adolygiad y Panel ar drefniadau i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau Diogelu. Nododd y Rheolwr Sgriwtini bod y gair 'Corfforaethol' wedi ei adael allan yn argymhelliad 6 yr adroddiad a bod angen ei gynnwys ar ôl y geiriau 'Polisi Diogelu'. Yn amodol ar y cywiriad hwnnw, gofynnwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini dderbyn y 6 argymhelliad a mabwysiadu'r adroddiad, a fydd wedyn yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith am benderfyniad.

'Roedd argymhellion y Panel fel a ganlyn: -

- **Bod Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfio â'r Polisi Diogelu ac y bydd angen ei fesur a'i gynnwys ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol;**
- **O ran Cam Gweithredu 4.6: tystiolaeth o hyfforddiant diogelu priodol ar gyfer yr holl gontractwyr, staff asiantaeth a gwirfoddolwyr y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i wneud gwaith ar ei ran - bydd angen cynnal Gwiriadau gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer eu hymgorffori yng Nghytundeb Contractio'r Cyngor a bydd angen i'r gwasanaethau unigol eu gweithredu.**
- **Dylai aelodaeth y Bwrdd Diogelu Corfforaethol gynnwys aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i wella cyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor.**
- **Mae angen cyfathrebu'r Cynllun Diogelu mewn ffordd gliriach. Nodwyd bod sefydlu'r Grŵp Diogelu Cydlynwyr yn cefnogi'r berchnogaeth o fewn gwasanaethau, ond roedd angen mwy o sesiynau gwybodaeth i gefnogi'r rôl.**
- **Defnyddio'r system newydd ar gyfer monitro polisïau i sicrhau bod yr holl staff yn darllen y Polisi Diogelu diwygiedig - a fyddai'n cynnwys rhoi gwybod am amheuon.**
- **Mae angen mwy o waith ar y Polisi Diogelu.**

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cymeradwyo Adroddiad Terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini gyda'i 6 argymhelliad.**
- **Bod yr adroddiad terfynol, sydd bellach yn Adroddiad a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini, yn cael ei gyflwyno i gyfarfod cynharaf y Pwyllgor Gwaith, yn unol 4.5.11 y Cyfansoddiad**

## 9. PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: GOSOD TAI'R AWDURDOD LLEOL (TAI GWAG)

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Panel Canlyniad Sgriwtini a oedd yn archwilio'r dangosydd perfformiad sy'n tanberfformio yn y Gwasanaethau Tai h.y. Dangosydd Perfformiad 23 - nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod unedau y gellir eu gosod (ac eithrio eiddo sy'n anodd eu gosod) a oedd yn dangos yn goch o ran eu statws.

Dywedodd yr Is-Gadeirydd fod y Panel wedi cynnal dau gyfarfod llwyddiannus, sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad. 'Roedd 4 argymhelliad y Panel fel a ganlyn: -

- Derbyn lliniariad y Gwasanaethau Tai am berfformiad gwael 'Dangosydd Perfformiad rhif 23'.
- Derbyn y targed o 25 diwrnod yn hytrach na newid y targed ar gyfer DP23 ar gyfer 2016/17, ond monitro'r sefyllfa'n agos a'i chymharu gyda pherfformiad awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru ar gyfer yr un DP ac ailystyried ei gynnwys neu newid y targed ar gyfer 2017/18. Cynigir y dylid ei ychwanegu at y Cerdyn Sgorio i hwyluso monitro corfforaethol.
- Mabwysiadu'r diffiniad newydd gan Housemark gyfer y DP yn y dyfodol (Para 4.4).
- Yn dilyn y sesiwn friffio i Aelodau ar y Polisi Gosod Tai, rhoi canllawiau maint A4 i Aelodau ar y rhestr dai a bandiau, gan gynnwys cyfeiriad yn benodol at yr hyn a fydd yn diwgydd os bydd tenant yn gwrthod cynnig o lety a'r cyfrifoldebau y mae'n rhaid i denantiaid y Cyngor eu cyflawni o ran safonau cynnal.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Cymeradwyo Adroddiad Terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini gyda'i 4 argymhelliad.**
- **Bod yr adroddiad terfynol, sydd bellach yn Adroddiad a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini, yn cael ei gyflwyno i gyfarfod cynharaf y Pwyllgor Gwaith, yn unol 4.5.11 y Cyfansoddiad.**

## 10 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor hyd at fis Mai, 2017.

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini bod dwy eitem ar y rhaglen wedi llithro a'u bod wedi eu rhaglennu bellach ar gyfer y cyfarfod ar 21 Tachwedd, 2016.

1. Adroddiad ar Drawsnewid y Gwasanaethau Anableddau Dysgu;
2. Âdroddiad ar drefniadau ôl-ofal yn adroddiad y Gwasanaethau Plant.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at y cyfarfod nesaf ar 14 Tachwedd a fyddai’n cynnwys rhoi sylw i opsiynau cyllidebol cychwynnol. Mynegodd y Cadeirydd bryder bod y ddogfen ymgynghorol yn cael ei dosbarthu ym mis Rhagfyr. Y llynedd gofynnwyd i gael gweld y ddogfen yn y cyfarfod hwn cyn iddi gael ei gylchredeg.

**Cynigiodd y Cadeirydd y dylid trafod amseru’r sesiynau cyllideb gyda'r Rheolwr Sgriwtini a Phrif Swyddogion.**

**Cam Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini hyd at fis Mai, 2017.**
- **Y Rheolwr Sgriwtini i ddiweddaru'r Flaenraglen Waith yn unol â hynny.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4:25 pm

**CYNGHORYDD R MEIRION JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL (CYFARFOD CYLLIDEB)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O. Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Victor Hughes, Llinos Medi Huws,<br>R. Llewelyn Jones, Peter Rogers.<br><br>Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig) (Aelod Cyfetholedig)<br><br>**Yn cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**<br><br>Y Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Alun Mummery<br><br>**Aelodau'r Pwyllgor Gwaith**<br><br>Y Cynghorwyr Ieuan Williams (Arweinydd), Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Rhaglen, Perfformiad a Chynllunio Busnes (GM)<br>Rheolwr Gwasanaethau Technegol Tai (DR)<br>Rheolwr Sgriwtini Dros Dro (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, Raymond Jones,<br>Dylan Rees, Dafydd Rhys Thomas (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)<br>Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid) |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 Y CYNLLUN YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Trawsnewid) a oedd yn ymgorffori'r Cynllun Ymgynghori arfaethedig ar y Gyllideb y bwriedir ei weithredu yn ystod y cyfnod o 7 Tachwedd, 2016 hyd at 16 Rhagfyr 2016 er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes fod yr adroddiad yn tynnu sylw at y broses ymgynghori a gynlluniwyd a'r rhestr mewn perthynas â'r arbedion y mae'n rhaid i'r Cyngor eu gwireddu er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18. Mae'r broses ymgynghori wedi aeddfedu o flwyddyn i flwyddyn ac mae Cynllun eleni yn mabwysiadu agwedd traws-sector ac yn ceisio sylwadau gan ddinasyddion drwy amrywiaeth o gyfryngau a sianelau fel y rhestrwyd nhw yn rhan 1.2 o'r adroddiad. Yn ogystal, bwriedir cynnal sesiwn friffio i'r wasg fel y gall aelodau o'r wasg

DRAFT

gael dealltwriaeth o natur yr arbedion a gynigir. Bydd arolwg ar-lein hefyd. Bydd y cynllun yn fodd i swyddogion gasglu a choladu'r wybodaeth angenrheidiol i lunio adroddiad ar y gwahanol sylwadau a wneir gan randdeiliaid ar y gyllideb fel y gellir eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror; bydd y wybodaeth a'r atborth a geir drwy'r broses ymgynghori cyhoeddus hefyd yn helpu i siapio cynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb a gyflwynir i'r Cyngor llawn ar ddiwedd mis Chwefror 2017.

Ystyriwyd y Cynllun Ymgynghori arfaethedig gan y Pwyllgor a'r Aelodau o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a oedd yn bresennol a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Cydnabu'r Pwyllgor yr her sy'n gysylltiedig â chyflwyno cynigion i'r cyhoedd ar gyfer arbedion o fewn gwasanaethau'r Cyngor flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn ffordd nad yw'n creu ymateb negyddol yn awtomatig, a gofynnodd am eglurhad ar sut y bwriedir y byddai hyn yn cael ei wneud eleni. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes y bydd y Cyngor, trwy'r Cynllun Ymgynghori, yn ceisio ymgysylltu'n gadarnhaol â'r cyhoedd ar y cynigion ar gyfer y gyllideb ac yn ceisio sicrhau bod y cynigion hynny'n cael eu llunio yn y fath fodd fel eu bod yn gwbl eglur i'r holl randdeiliaid a hefyd mewn ffordd a fydd yn anelu at sbarduno trafodaeth ystyrlon.
- Yng ngoleuni cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru'r diwrnod cynt ynghylch setliad gwell na'r disgwyl i lywodraeth leol, ceisiodd y Pwyllgor eglurhad a fydd y neges i gymunedau am y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn wahanol felly i'r hyn a fyddai wedi bod fel arall. Er yn cydnabod bod y sefyllfa o ran blwyddyn ariannol 2017/18 yn well, dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 nad oedd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn rhoi syniad o'r rhagolygon ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 ac felly mae'n rhaid i'r Cyngor gynllunio a pharatoi ar gyfer y tebygolrwydd y bydd llai o gyllid ar gyfer y blynyddoedd hynny. Bydd unrhyw arbedion a wneir yn 2017/18 yn cael effaith ar y ddwy flynedd ganlynol. Os bydd y setliad penodol ar gyfer Ynys Môn (sydd i'w gadarnhau) yn ffafriol, efallai y gellid cynnig toriadau llai ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ond gyda'r sgil-effaith y byddai'n rhaid gwneud i fyny am y toriadau na chawsant eu gwneud yn 2017/18 yn y ddwy flynedd ddilynol. Yn ogystal, mae'r cynnydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18 yn fychan iawn yng nghyd-destun yr ystod o bwysau cynyddol a wynebir gan y Cyngor sy'n golygu bod y Cyngor yn dal i orfod gwneud toriadau. Yn nhermau arian parod yn unig, mae'r Cyngor mewn sefyllfa debyg i llynedd, ond mae effeithiau'r pwysau cynyddol ar y gyllideb yn golygu ei fod yn wynebu toriad mewn termau real.
- Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd y bydd y broses ymgynghori ar y gyllideb yn fwy na dim ond ymarfer ticio blychau ac y bydd y Cyngor yn cael deialog ystyrlon â'r cyhoedd ynghylch ei gynigion cyllidebol ac y bydd yn gwrando ar y safbwyntiau a fynegwyd ac, os oes angen, y bydd yn barod i newid ei ymagwedd ar sail yr hyn y bydd y cyhoedd yn ei ddweud wrtho. Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes mai amcan y broses ymgynghori yw mynd allan i wrando ar farn dinasyddion yr Ynys a dywedodd fod y Cyngor, yn y gorffennol, wedi newid ei gynlluniau yn dilyn y sgyrsiau a gafodd gyda'r cyhoedd. Y nod yw annog trafodaeth a galluogi swyddogion wedyn i gyflwyno darlun cyn llawned â phosib o farn a safbwyntiau'r cyhoedd ar y cynigion cyllidebol a gyflwynir iddynt.
- Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch a oes gan y Cyngor unrhyw hyblygrwydd o fewn ei gynlluniau cyllidebol i allu ymateb yn gadarnhaol i ddymuniadau posib y cyhoedd fel y mynegwyd nhw drwy'r broses ymgynghori. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 nad oedd y rhestr o arbedion yn derfynol a bod gwaith ar y rhestr yn mynd rhagddo. Mae'r Cyngor yn dal i ddisgwyl am union ffigwr y setliad ar gyfer Ynys Môn yn benodol a hyd nes y caiff ei gyhoeddi nid yw swyddogion mewn sefyllfa i ddweud yn union beth fydd maint y diffyg yn y gyllideb na maint y bwlch arbedion y bydd angen ei bontio. Dywedodd y Prif Weithredwr, er y bydd yr Awdurdod yn gwrando ar farn rhanddeiliaid, ni all ymateb yn gadarnhaol i bob cais ac y bydd angen iddo flaenoriaethu. Serch hynny, y gobaith yw y bydd yr Awdurdod mewn sefyllfa i ganiatáu peth hyblygrwydd i Aelodau Etholedig pan fydd yn amser iddynt wneud eu penderfyniadau cyllidebol ac y bydd opsiynau ar gael ar gyfer trafodaeth.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad hefyd ar ba newidiadau a wnaed i'r broses ymgynghori ar sail profiad blaenorol ac a gafwyd gwared ar yr elfennau llai effeithiol, e.e. rhoi'r gorau i gynnal

DRAFT

rhai cyfarfodydd lle’r oedd y niferoedd a fynychodd yn isel. Cadarnhaodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes fod strwythur a phroses yr ymgynghoriad wedi cael eu herio'n egnïol eleni a’u bod yn gadarnach o ganlyniad.

- Awgrymodd y Pwyllgor y gallai fod yn fuddiol, unwaith y bydd cyllideb 2017/18 wedi ei sefydlu a'i chymeradwyo, i gynnal adolygiad o'r broses ymgynghori cyhoeddus i sefydlu’r hyn sydd wedi gweithio a’r hyn nad yw wedi gweithio fel y gellir gwneud newidiadau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes fod grŵp wedi cael ei sefydlu i edrych yn benodol ar ymgynghori ac ymgysylltu ac mai rhan o’r briff yw hwnnw yw cyfuno a chysylltu ymgynghoriadau lle gellir gwneud hynny fel bod yr holl broses ymgysylltu yn dod yn fwy effeithlon.

**Ar ôl cael sicrwydd ac eglurhad mewn perthynas â’r materion hyn, penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu ar gyfer cynigion cyllideb 2017/18 fel y cyflwynwyd nhw**.

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem isod ar y sail ei bod yn golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd fel y'i cyflwynwyd.**

**4 CYLLIDEB 2017/18 - Y BROSES HYD YN HYN**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mewn perthynas â'r cynigion drafft cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2017/18 a’r arbedion a nodwyd hyd yma. Dosbarthwyd rhestr yn y cyfarfod o'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig fesul gwasanaeth.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod asesiad cychwynnol wedi dangos y byddai angen i'r Cyngor ddarganfod arbedion o oddeutu £12m dros y tair blynedd nesaf, sef cyfanswm o £4m ym mhob un o'r blynyddoedd hynny. Gofynnwyd i’r gwasanaethau ddod o hyd i gynilion o 4% o'u cyllidebau net. Cynhaliwyd cyfres o weithdai i aelodau etholedig dros yr wythnosau diwethaf i archwilio a herio'r cynigion a gyflwynwyd gan wasanaethau unigol ac fe arweiniodd hynny, ddydd Mercher diwethaf, sef 12 Hydref, at Weithdy Gosod Cyllideb i adolygu'r broses hyd yma ynghyd â’r arbedion a gynigiwyd a’r camau nesaf yn y broses.

Dywedodd y Swyddog mai bwriad y cyfarfod hwn oedd cymryd golwg ehangach ar y cynigion arbedion a gwerthuso eu heffaith strategol, os o gwbl, ar allu'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17; ystyried a yw unrhyw un o'r cynigion yn achosi pryder sylweddol i’r Pwyllgor Sgriwtini ac a oes angen ailddrafftio rhai ohonynt i bwrpas yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Ystyriodd y Pwyllgor, a’r Aelodau hynny a oedd yn bresennol ac yn cynrychioli’r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'r cynigion ar gyfer arbedion yng nghyd-destun tair ystyriaeth benodol a nodwyd yn yr adroddiad ac a ailadroddwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 uchod, a gwnaed y sylwadau canlynol:

**4.1 Ydi unrhyw un o’r cynigion drafft sy’n codi o’r broses hyd yma yn effeithio ar allu’r Cyngor i gyflawni’r canlyniadau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor mewn modd amserol?**

- Nododd y Pwyllgor yr arbedion sydd wedi’u hargymell o dan y Gwasanaethau Oedolion gan gyfeirio’n benodol at arbediad o £250k drwy drawsnewid gwasanaethau h.y. drwy adolygu

DRAFT

pecynnau gofal, lleoliadau preswyl a phecynnau cymorth sy’n canolbwyntio ar y canlyniad a gofynnwyd am gadarnhad o sut y byddai’r rhain yn effeithio ar nod y Cyngor i drawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion hŷn ac i hyrwyddo annibyniaeth ac ail-alluogi pobl hŷn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y ffigwr cyfansawdd o £ 250k yn cynnwys sawl elfen yr amcangyfrifir eu bod yn dod i gyfanswm o £250k gan gynnwys lleoliadau all-sirol, lleoliadau preswyl ac ailgyfeirio defnyddwyr gwasanaethau o leoliadau gofal dydd i hybiau cymunedol a chynlluniau Heneiddio’n Dda. Mae gwaith ar yr opsiwn yn mynd rhagddo er mwyn cadarnhau’r cyfanswm arbedion. Cadarnhaodd y Swyddog na fyddai unrhyw effaith uniongyrchol o ran gallu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaeth gorfforaethol.
- Nododd  y Pwyllgor fod arbediad nad oedd wedi ei gyfrifo hyd yma wedi cael ei roi yn erbyn y prosiect Dementia dan y gyllideb Gofal Dydd o fewn y Gwasanaethau Oedolion a gofynnwyd am esboniad o'r hyn y mae'r arbediad yn ei olygu a sut mae'n berthnasol i'r nod corfforaethol o drawsnewid y ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion o ystyried bod dementia yn cael ei gydnabod fel cyflwr sy'n gosod galw arbennig am ofal cymdeithasol a darpariaeth iechyd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y cynnig hwn i arbed arian yn cael ei adolygu gan nad yw'n debygol o allu cynhyrchu unrhyw arbedion.

**4.2 A oes unrhyw un o'r cynigion drafft sy'n deillio o'r broses hyd yn hyn yn peri pryder sylweddol i'r Pwyllgor yn ei gyfanrwydd**

- Nododd y Pwyllgor nad oedd rhai o'r cynigion ar gyfer arbedion yn y Gwasanaethau Oedolion wedi eu cadarnhau hyd yma a mynegodd bryder cyffredinol am yr her a’r risg o geisio gwireddu’r arbedion hynny mewn maes lle mae'r galw yn cynyddu a lle gall lleihau gwasanaeth gael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ei fod yn sylweddoli maint yr her ond bod tueddiadau yn dangos bod y defnydd a wneir o leoliadau preswyl yn gostwng; mae gwaith yn cael ei wneud ar strategaeth i greu mwy o hybiau cymunedol i alluogi pobl i aros yn eu cymunedau eu hunain yn hytrach nag o fewn  canolfannau gofal dydd ffurfiol. Mae Swyddogion yn credu hefyd y gellir gwneud arbedion mewn lleoliadau preswyl y tu allan i’r sir.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch sut y bwriedir allanoli’r toiledau cyhoeddus a gwneud arbedion o ystyried bod rhai o'r toiledau mewn cyflwr gwael. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 mai'r nod yw eu trosglwyddo i berchnogaeth cynghorau cymuned. Nid yw’r ffigwr a nodir yn y rhestr ond hanner y gyllideb ar gyfer y ddarpariaeth hon ac felly bydd yr hanner arall ar gael i gynorthwyo cynghorau cymuned i gymryd y cyfleusterau drosodd. Cynhyrchir yr arbedion dros 2 i 3 blynedd wrth i'r Cyngor roi'r gorau i redeg y cyfleusterau; fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cadw cyfrifoldeb am y trethi sy'n £5k i £20k y flwyddyn.  Er y bydd cyllideb yn parhau ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus, bydd rhan ohoni’n cael ei defnyddio yn 2017/18 i annog cynghorau cymuned i gymryd y cyfleusterau drosodd. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y gall bod yn rhaid iddo wneud gwaith cyfalaf ar rai o'r toiledau cyn mynd i drafodaethau ynghylch eu trosglwyddo.
- Nododd y Pwyllgor gyda phryder bod y cynigion arbedion ar gyfer 2017/18 a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Addysg yn sylweddol brin o'r targed gofynnol; awgrymodd y dylai'r Gwasanaeth efallai edrych eto ar y sgôp sydd ganddo i nodi arbedion pellach gan y bydd y rhain yn cael effaith ar y sefyllfa yn 2018/19 a 2019/20.
- Nododd y Pwyllgor y rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cynhyrchu arbedion o £266k, sef yr arbedion mwyaf yn y rhestr, ond bellach mae angen cadarnhau’r ffigwr hwn sy'n codi cwestiwn ynghylch a yw’n gyraeddadwy. ‘Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu ynghylch pa mor gyraeddadwy oedd yr arbedion a gynigiwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 gan y Gwasanaeth Diwylliant sy'n ymwneud â throsglwyddo gwasanaethau, yn enwedig gan eu bod yn cyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 fod y ffigwr arbedion o £266k ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn ostyngiad o 60% yng ngwariant y gwasanaeth o gymharu â’r lefel yn 2013; fodd bynnag, mae trafodaethau'n parhau ynghylch opsiynau ar gyfer arbedion yn y Gwasanaeth Llyfrgell a £266k yw'r arbedion mwyaf posib y gellir eu gwneud yn y gyllideb hon dan yr opsiynau sy'n cael eu hystyried.

DRAFT

- Nododd y Pwyllgor y gostyngiad arfaethedig yn y costau ysgol nad ydynt yn ymwneud â dysgu mewn cysylltiad â lleihau lefelau salwch a'r gost gysylltiedig o ddarpariaeth gyflenwi ac awgrymodd, er mwyn sicrhau llwyddiant y cynnig i'r dyfodol, fod angen ymgysylltu'n gynhwysol o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau consensws.

**4.3 A oes angen ailddrafftio unrhyw un o'r cynigion drafft sy'n deillio o'r broses hyd yma er mwyn symleiddio a chrynhoi eu hystyr at ddibenion ymgynghori**

- Nododd y Pwyllgor fel pwynt cyffredinol, ac er budd tryloywder, y byddai'n werth ychwanegu rhywfaint o fanylion i egluro nifer o'r cynigion arbedion fel y nodwyd nhw yn y rhestr, yn arbennig pan fônt yn cael effaith uniongyrchol ar bobl, cymunedau a/neu gyrff eraill. Nododd y Pwyllgor efallai nad yw materion a ddeallir o fewn y Cyngor efallai'r un mor eglur i'r cyhoedd yn gyffredinol ac felly bydd angen ymhelaethu arnynt.
- Os cynigir gostyngiad mewn cyfraniad, contract neu wasanaeth neu os cynyddu prisiau nododd y Pwyllgor fod angen cynnwys y swm a'i wneud yn eglur.
- Nododd y Pwyllgor, os defnyddir acronymau, fod angen egluro eu hystyr a'r hyn y maent yn ei olygu.
- Lle gallai ystyr y cynigion fod yn aneglur i'r cyhoedd nododd y Pwyllgor y byddai angen darparu rhagor o fanylion am yr hyn y mae'r cynnig yn ei olygu a'r hyn y mae'n ei gyfeirio ato e.e rheoli parcio, Cwmni Cynnal, Doc Pysgod Caergybi, Amdanaf i, adolygiad o drefniadau Teleofal. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y cynnig diwethaf, sef y cynnig Teleofal, yn golygu cysoni nifer o ffyrdd y gellir codi ar gleientiaid am wasanaethau teleofal ar hyn o bryd. Eglurodd y Swyddog y bydd cynigion ar gyfer arbedion yn y Gwasanaethau Oedolion yn cael eu hesbonio'n fanylach fel rhan o ymgynghoriad y Gwasanaeth ei hun gyda grwpiau diddordeb penodol e.e. Age Cymru Gwynedd a Môn. Mae'n ofynnol i'r gwasanaeth ymgynghori â defnyddwyr ar newidiadau i daliadau a godir ac fe'u hysbysir o'r newidiadau arfaethedig i'r taliadau teleofal a gofal cartref gyda hyn. Fel mae'n digwydd, mae'r broses honno'n cael ei chynnal ar yr un pryd â'r broses i ymgynghori ar y gyllideb.
- Nododd y Pwyllgor mewn perthynas â'r adolygiad arfaethedig o'r hebryngwyr croesfannau ysgol bod hyn yn cynrychioli parhad o bolisi yn hytrach na chynnig newydd ac awgrymodd nad oes angen iddo fod yn destun ymgynghoriad fel y cyfryw.
- Nododd y Pwyllgor na fydd y rhestr arbedion fel y'i cyflwynwyd o reidrwydd yr un fath â'r rhestr y bydd y Pwyllgor Gwaith yn ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd ac na fydd y Pwyllgor Sgriwtini wedi cael gweld na chael mewnbwn ymlaen llaw i'r fersiwn ddiwygiedig a ailddrafftiwyd.

| 9 Cynnig mynediad am ddim i wybodaeth. | Cyflawni'n llawn | Mae'r holl wybodaeth yn rhad ac am ddim, efallai y bydd tâl bychan am lungopïo ac argraffu. Mae Ynys Môn yn aelod o'r cynllun rhyngfenthyca rhanbarthol LINC Y Gogledd; Mae'r Partneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru yn darparu cyfleoedd cydweithredu draws sectoraidd ardderchog. Mae'r Phartneriaeth TalNet o fudd mawr i'r Gwasanaeth. |

| Cydymffurfio â Hawliau Craidd | | | Ynys Môn |
|---|---|---|---|
| 10 | Darparu defnydd am ddim o'r Rhyngrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys diwifr. | Cyflawni'n llawn | Mae defnyddio'r rhyngrwyd a chyfrifiaduron am ddim i holl drigolion ac ymwelwyr gyda cherdyn llyfrgell. Codir tâl bychan am breswylwyr (ymwelwyr) sy'n defnyddio ein cyfrifiaduron. Mae WI-FI yn rhad ac am ddim i bawb ac mae ar gael ym mhob un o'n llyfrgelloedd. Mae cyfleusterau a chyrsiau yn cael eu hyrwyddo tu allan i'r llyfrgell ac mae defnydd TGCh / presenoldeb yn uchel, fodd bynnag nodwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus fod hyrwyddo'r maes yma yn cael ei hystyried yn wan. Felly mae'r ffordd y gweithgareddau yn cael eu cyfathrebu angen gwelliant. Dywedodd 19% o 'non-users' bod angen gwella marchnata o'r gwasanaethau sydd ar gael. |
| 11 | Cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd. | Cyflawni'n llawn | Mae'r tudalennau gwe'r Gwasanaeth Llyfrgell a Gatalog y Llyfrgell ar gael ar-lein gyda mynediad 24/7. Mae adnodau ar lein e.e. 'Transparent Language' ac e-lyfrau/ e-audio / e-zines ar gael yn rhad ac am ddim 24 awr y dydd. |
| 12 | Darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau cyhoeddi sy'n newid. | Cyflawni'n llawn | Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn sicrhau bod ein hadnoddau cyllidebol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth eang o fformatau. Mae'r holl ddeunydd Cymraeg a gyhoeddir yn cael ei brynu. Mae'r consortiwm Pwrcasu Llyfrau Cymru Gyfan yn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni mwy o arbedion nag pe baem yn gweithredu ar ben ein hun. Mae'r bartneriaeth TalNet hefyd yn dod ac arbedion yn y maes hwn. |
| 13 | Rhannu eu catalogau, er mwyn i ddefnyddwyr fedru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru. | Cyflawni'n llawn | Mae Catalog Llyfrgell TalNET yn llwyr hygyrch. |
| **Arweinyddiaeth a datblygu** | | | |
| 14 | Hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau. | Cyflawni'n rhannol | Nodwn hyn fel cyfarfod yn rhannol o ganlyniad i faterion cyllido, mae gwasanaeth heb unrhyw gyllideb farchnata, a gall capasiti staffio yn y gwasanaeth cyfyngu cyrhaeddiad. Mae'r Tîm Datblygu Cynulleidfa yn Wrecsam wedi bod yn amhrisiadwy yn y maes hwn. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod hwn yn faes o wendid, fodd bynnag, mae presenoldeb rheolaidd ar y tudalennau cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod yn cael effaith da a datganiadau i'r wasg yn adrodd straeon newyddion da wedi ymddangos yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn sy'n denu 'non-users'. Mae gweithgareddau a digwyddiadau yn cael eu hyrwyddo y tu allan i adeiladau ni mewn lleoliadau yn y gymuned. |
| 15 | Ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol. | Cyflawni'n llawn | Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wedi ymgynghori'n Ffurfiol gyda'i Ddefnyddwyr ym Mawrth 2014, a bydd yn ymgynghori eto yn ystod y Fframwaith .<br>Fel rhan o'r broses drawsnewid cynhaliodd y gwasanaeth ymgynghoriad yn hydref 2014 gyda nod ateb sawl cwestiwn:<br>• Beth ydi ein dinasyddion a phartneriaid angen oddi wrth eu gwasanaeth llyfrgell?<br>• Casglu barn ar restr hir o opsiynau posibl.<br>• Pa syniadau sydd gan bartneriaid a dinasyddion ar gyfer gwella'r gwasanaeth?<br>Mae'r ymatebion wedi llywio'r Gwasanaeth a'r proses trawsnewid |

| Cydymffurfio â Hawliau Craidd | | Ynys Môn |
|---|---|---|
| **16** Gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru. | Cyflawni'n llawn | Mae gwasanaeth Llyfrgelloedd Ynys Môn yn cymryd pob cyfle i weithio mewn Partneriaeth, o fewn y sector llyfrgelloedd cyhoeddus, y gymuned ehangach a hefyd gyda phartneriaid y tu allan i'r sector llyfrgell. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at weithgareddau ac agenda'r Bartneriaeth Llyfrgelloedd Gogledd Cymru (Cyhoeddus, Academaidd, AB a Llyfrgelloedd Arbennig) ac yn cydweithio yn llawn â'r cynllun Rhanbarthol LINC y Gogledd. Bydd y prosiect LMS Cymru Gyfan yn cryfhau'r maes hwn ymhellach. |
| **17** Darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned. | Cyflawni'n rhannol | Mae strategaeth, polisïau, nodau a gweledigaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gael yn llawn wedi ei argraffu, yn llwyr ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg . Nid ydynt ar gael ar hyn o bryd ar y wefan gan eu bod wedi eu symud dros dro oherwydd eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn rhan o'r Arolwg Gwasanaeth Llyfrgell a'r broses gydgordio cyn cyflwyno RhLG (LMS) Gogledd Cymru. |
| **18** Darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le. | Cyflawni'n llawn | Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn gweithredu polisi Canmol a Chwyn, proses glir,tryloyw ac amserol. yn chwarterol ar gyfer Sgriwtini. Ymdrinnir â phob mater yn uniongyrchol a rhaeadrir yr arfer dda/ y gwersi a ddysgwyd yn uniongyrchol i bob pwynt gwasanaeth. |

## *Cwsmeriaid a chymunedau* — *Ynys Môn*

### DASLICC 1 Gwneud gwahaniaeth

| DASLICC 1 Gwneud gwahaniaeth | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|
| Canran yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | **ang** | | |
| Canran yr oedolion sydd wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch iechyd a lles yn y llyfrgell | **ang** | | |
| Canran yr oedolion sydd yn teimlo bod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawgar i ymweld â hi | **ang** | | |
| Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau | **ang** | *Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)* | *ang* |

Sylw'r Awdurdod:

Nid yw arolwg wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn oherwydd y hymgynghoriad trawsnewid gwasanaeth llyfrgell

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canran y plant 7-16 oed sy'n meddwl bod defnyddio'r llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau | **ang** | | |
| Canran y plant 7-16 oed sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau | **ang** | *Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)* | *ang* |

Sylw'r Awdurdod:

Nid yw arolwg wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn oherwydd y hymgynghoriad trawsnewid gwasanaeth llyfrgell

### DASLICC 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid

| DASLICC 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | 2015-16 | | *2014-15* |
|---|---|---|---|
| Canran yr oedolion sy'n credu bod y dewis o lyfrau yn 'dda iawn' neu'n 'dda' | **ang** | | *ang* |
| Canran yr oedolion sy'n credu bod safon y gofal cwsmeriaid yn 'dda iawn' neu'n 'dda' | **ang** | | *ang* |
| Canran yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell yn 'dda iawn' neu'n 'dda' yn gyffredinol | **ang** | | *ang* |
| *Dyddiadau'r arolwg (mis a blwyddyn)* | *ang* | | *ang* |

Sylw'r Awdurdod:

Nid yw arolwg wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn oherwydd y hymgynghoriad trawsnewid gwasanaeth llyfrgell

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sgôr gyffredinol allan o ddeg ar gyfartaledd a roddwyd gan ddefnyddwyr 7-16 oed i'r llyfrgell maent yn eu defnyddio | **ang** | *Dyddiad yr arolwg (mis a blwyddyn)* | *ang* |

Sylw'r Awdurdod:

Nid yw arolwg wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn oherwydd y hymgynghoriad trawsnewid gwasanaeth llyfrgell

### DASLICC 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol

| DASLICC 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigol | 2015-16 | % y cyfanswm | *2014-15 % y cyfanswm* |
|---|---|---|---|
| Nifer o fannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr a mwy sy'n darparu: | | | |
| Cymorth sylfaenol i ddefnyddio'r seilwaith TGCh a gynigir (gan gynnwys y rhwydwaith diwifr) a chymorth i gael gafael ar y rhychwant o adnoddau gwybodaeth electronig sydd ar gael. | 9 | **100%** | *100%* |
| Hyfforddiant i wella llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol. | 6 | **67%** | *67%* |
| Sesiynau llythrennedd gwybodaeth i ddefnyddwyr. | 9 | **100%** | *100%* |
| Cymorth i ddefnyddwyr i gael gafael ar adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol. | 9 | **100%** | *100%* |
| Rhaglenni/gweithgareddau datblygu darllenwyr ar gyfer oedolion a phlant | 9 | **100%** | *100%* |

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

Mae rhaglen lawn o sesiynau sgiliau ffurfiol wedi rhedeg yn y 6 llyfrgell fwyaf. Sesiynau sgiliau anffurfiol yn digwydd ym mhob llyfrgell, fodd bynnag nad yw nifer y cyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd llai yn addas ar gyfer sesiynau ffurfiol.

| DASLICC 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | 2015-16 | Fesul 1,000 o'r boblgth | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer yn mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr wedi'u trefnu ymlaen llaw gan y llyfrgell | 338 | 5 | |
| Canran y mynychwyr a ddywedodd fod mynychu wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion | 95% | | 91% |
| Nodwch y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffigwr hwn | | | |
| Brasamcan o nifer y ffurflenni adborth a ddosbarthwyd | 250 | | |
| Nifer y ffurflenni adborth sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad hwn | 250 | | |
| Nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth drwy gael hyfforddiant anffurfiol yn ystod y flwyddyn | 15,325 | 219 | |

Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys nodyn ar y dull i'w ddefnyddio i gyfrifo'r canlyniadau):

Hyfforddiant anffurfiol yn cynyddu; help gyda negeseuon e-bost /ddefnyddio cyfrif e-adnoddau yn gyfran fawr o'r ffigur hwn. Gweithdrefnau samplo CIPFA yn cael eu dilyn gyda chyfrif ym mis Hydref.

## *Mynediad i bawb* — *Ynys Môn*

| DASLICC 5 Lleoliad mannau gwasanaeth | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---|---|
| Dwysedd y boblogaeth (person yr hectar) | 1.0 | |
| % yr aelwydydd o fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol | 100% | 100% |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

77.8% o aelwydydd yn byw o fewn clustog 3mile i lyfrgell sefydlog. Mae hyn yn wybodaeth oddi ar ein system GIS, radiws o 3 milltir syml yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfrifo. Mae gwaith yn cael ei gynnal ar ffigwr fwy cywir gan gyfrifo pellter a deithiwyd ar y ffordd, fel rhan o'r Adolygiad Llyfrgelloedd. Nid oedd y ffigur hwnnw ar gael eto gan nad oedd yr arbenigedd ar gael o fewn y cyngor. Mae'r ONS yn helpu ein cydweithwyr yn Cynllunio Datblygu Economaidd gyda'r cyfrifiad hwn. 23% o aelwydydd yn byw o fewn 1/4 milltir o arhosfan llyfrgell deithiol.

| DASLICC 6 Defnyddio'r llyfrgell | 2015-16 | Fesul 1,000 o'r boblgth | 2014-15 Fesul 1,000 o'r boblgth |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn | 288,575 | 4,124 | 4,166 |
| Nodwch y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo hwn | Cyfuniad o'r dulliau hyn | | |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefan llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn | 110,500 | 1,579 | 1,555 |
| Cyfanswm nifer y benthycwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn | 8,004 | 114 | 155 |
| Cyfanswm y nifer sy'n aelodau o'r llyfrgell | 17,596 | 251 | 266 |
| Cyfanswm nifer y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant wedi'u cyfuno) | 213,579 | 3,052 | 3,932 |
| Cyfanswm nifer y deunydd clyweledol ac electronig a fenthycwyd/lawrlwythwyd | 9,032 | 129 | 258 |

Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys enwau unrhyw fannau gwasanaeth a rennir ac sy'n rhannu dulliau cyfrif, a dyddiad y glanhau diwethaf ar ddata

# Dangosyddion Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

Dyddiad glanhau data diwethaf oedd 01/04/2013

| DASLICC 7 Presenoldeb defnyddwyr yn nigwyddiadau'r llyfrgell | 2015-16 | Fesul 1,000 o'r boblgth | 2014-15 Fesul 1,000 o'r boblgth |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell | 13,537 | 193 | *210* |

Sylw'r Awdurdod:

Presenoldeb mewn digwyddiadau a gweithgareddau yn ychydig yn llai na'r llynedd, fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu ansawdd a nifer o weithgareddau. Mae'r Gwasanaeth yn falch o'r rhaglen ei ddigwyddiadau a gweithgareddau yn enwedig o gofio bod yr adran plant wedi bod 1 aelod proffesiynol staff byr yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## *Dysgu am oes* — *Ynys Môn*

| DASLICC 8 Deunydd darllen cyfoes | 2015-16 | Fesul 1,000 o'r boblgth | 2014-15 Fesul 1,000 o'r boblgth |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr eitemau a dderbyniwyd | 22,669 | 324 | *278* |
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau (o DASLICC 14) | | | *£1,717* |
| Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. | | | |

| | | 2014-15 |
|---|---|---|
| Stoc benthyca ar ddechrau'r flwyddyn | 120,147 | |
| Cyfanswm deunydd i'w fenthyca a dderbyniwyd | 22,489 | |
| Cyfradd adnewyddu | **18.7%** | *13%* |
| Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. | | |

| DASLICC 9 Deunydd darllen priodol | 2015-16 | | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau i blant | £33,025 | | |
| A yw'r ffigwr hwn yn cynnwys gwariant ar Wasanaeth Llyfrgell i Ysgolion? | Ydi | | |
| Please indicate the amount included | £11,179 | | |
| Canran gwariant ar ddeunyddiau i blant | | % | *29%* |

Mae'r Gwasanaeth yn 'gorwario yn y maes hwn sydd yn adlewyrchiad o flaenoriaeth i'r gwasanaeth tuag plant ac oedolion ifanc. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth wedi ceisio ail-gydbwyso'r gyllideb llyfr ychydig tuag at brynu stoc Oedolion / Plant fel y dangosir gan y gostyngiad yn y gwariant%.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg | £15,225 | | |
| Canran gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg | | % | *7%* |
| Gwariant am bob 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg | **£380** | £ | *£222* |

| DASLICC 10 Mynediad ar-lein | 2015-16 | Fesul 10,000 o'r boblgth | 2014-15 Fesul 10,000 o'r boblgth |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y cyfrifiaduron â mynediad i'r cyhoedd sydd ar y rhwydwaith<br>Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. | 72 | **10.29** | *10.06* |
| A yw pob llyfrgell sefydlog a theithiol yn darparu o leiaf un ddyfais sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd at y Rhyngrwyd ac at gynnwys digidol ar y rhwydwaith? | **Nac ydi** | | |
| Os yw'n berthnasol, cofnodwch nifer y safleoedd sefydlog nad oes ganddynt fynediad i'r rhwydwaith | | | |
| Os yw'n berthnasol, cofnodwch nifer y llyfrgelloedd symudol nad oes ganddynt fynediad i'r rhwydwaith<br>Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod: | | | |
| A yw'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn darparu mynediad diwifr i'r cyhoedd er mwyn iddynt ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain?<br>Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. | **Ydi** | | |

| **DASLICC 11 Defnyddio TGCh** | **2015-16** | **% a ddefnyddiwyd** | ***2014-15 %*** |
|---|---|---|---|
| Nifer yr oriau sydd ar gael i'w defnyddio ar gyfleusterau TGCh sydd â mynediad i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn | 65,154 | | |
| Nifer yr oriau a gofnodwyd o ddefnyddio cyfleusterau TGCh gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn | 38,192 | **59%** | *51%* |
| Nifer yr oriau ar gael i ddefnyddio rhwydweithiau diwifr gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn | 9,954 | | |
| Nifer yr oriau a gofnodwyd o'r cyhoedd yn defnyddio rhwydweithiau diwifr yn ystod y flwyddyn | dim ar gael | | *ang* |
| Sylw'r Awdurdod: | | | |

| **DASLICC 12 Cyflenwi ceisiadau** | **2015-16** | **%** | ***2014-15 %*** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y ceisiadau am eitemau unigol a wnaed yn ystod y flwyddyn | 15,886 | | |
| Nifer y ceisiadau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 7 diwrnod calendr i wneud y cais<br>Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. | 11,563 | **73%** | *65%* |
| Nifer y ceisiadau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 15 diwrnod calendr i wneud y cais<br>Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. | 14,497 | **91%** | *84%* |

## *Arweinyddiaeth a datblygu* — *Ynys Môn*

| **DASLICC 13 Lefelau staffio a chymwysterau** | **2015-16** | **Fesul 10,000 o'r boblgth** | ***2014-15 Fesul 10,000 o'r boblgth*** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y staff (FTE)<br>Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:<br>Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys gwybodaeth am staff sy'n cael eu rhannu): | 20.3 | **2.90** | *3.01* |

Mae'r cyfanswm yn cynnwys staff 'ar y cyd' yn yr uned lyfryddol TalNet (am 22% o gyfanswm eu lefel staffio). Rydym wedi cynnwys yr oriau'r Cydlynydd Dysgu Gydol Oes, llyfrgellydd proffesiynol, sy'n cael ei ariannu drwy'r Adran Addysg ac nid cyflog o Gyllideb Gwasanaeth Llyfrgelloedd; mae'r swydd hon yn rhan o Dîm Proffesiynol ac mae ganddo gyfrifoldeb penodol o fewn y gwasanaeth yn ogystal â'r rôl dysgu gydol oes integredig. Nid yw lefelau staffio wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fodd bynnag, mae gennym 1 swydd llawn amser yn wag sydd wedi ei heithrio o'r ffigurau hyn. Cafodd y Llyfrgellydd Cynorthwyol secondiad i'r swydd yma yn ystod y flwyddyn, ond nid yw ei swydd barhaol wedi ei llenwi. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn is na'r safon staffio sydd anochel yn cael effaith ar y Gwasanaeth. Mae'r broses drawsnewid ac ailstrwythuro wedi cymhlethu'r posibilrwydd o lenwi swyddi wag.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer y staff sydd â chymwysterau cydnabyddedig yn gysylltiedig â llyfrgelloedd (FTE) (gan gynnwys meysydd cytras) | 3.3 | **0.47** | *0.63* |

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

Mae 1 swydd broffesiynol, llawn amser, wedi bod yn wag oherwydd ymddeoliad yn Ebrill 2015 (Llyfrgellydd Plant a Pobl Ifanc). Mae'r Llyfrgellydd Cynorthwyol: Plant ac Ysgolion wedi cwblhau ei chymhwyster ôl-radd (gan ennill ei Diploma mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth Mai 2016 y tu allan y cyfnod adrodd hwn), mae hi hefyd yn athro cymwysedig ond nid yw wedi cael ei gyfrif fel aelod o staff proffesiynol yn y ffurflen hon oherwydd nid i'w cymhwyster yn hanfodol i'r swydd hwn. Gall capasiti ein staff proffesiynol, ynghyd â'r broses drawsnewid, ar adegau gyfyngu datblygiad y gwasanaeth.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sydd â chymwysterau mewn meysydd cytras (FTE) | 0.0 |
| Nifer y swyddi sy'n gofyn am gymwysterau llyfrgellyddiaeth | 4.4 |
| Nifer y staff â chymwysterau llyfrgellyddiaeth mewn swyddi nad oes angen cymhwyster llyfrgellyddiaeth (FTE) | 1.0 |

Sylw'r Awdurdod:

| | | |
|---|---|---|
| A yw rheolwr gweithredol dynodedig y gwasanaeth llyfrgell yn meddu ar gymhwyster ffurfiol mewn llyfrgellyddiaeth, gwyddor gwybodaeth neu reoli gwybodaeth? | **Ydi** | Ydi |

Rhowch fanylion am y cymwysterau cyfredol sydd ganddo/ganddi:

Diploma ôl-radd in Gwybodaeth ac Astudiaethau Llyfrgell (DIPLibInfSt)

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

| | |
|---|---|
| Ymhle y mae safle'r swydd hon yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol? | Aadrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Gwasanaeth |
| Beth yw swydd y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle (os yw'n wahanol i'r uchod)? | fel uchod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymhle y mae swydd y llyfrgellydd proffesiynol uchaf ei safle yn strwythur rheoli'r awdurdod lleol (os yw'n wahanol i'r uchod)? | fel uchod | | | |
| Cyfanswm oriau gweithio staff yn ystod y flwyddyn | 34,650 | | | |
| Nifer oriau staff sydd wedi'u treulio mewn hyfforddiant neu ddatblygiad personol/proffesiynol | 475 | | | |
| % yr amser a dreuliwyd mewn hyfforddiant a datblygiad personol/proffesiynol | **1.4%** | | | |
| Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. | | | | |
| Nid yw staff TalNet wedi cael eu cynnwys yn y cyfrifiadau uchod | | | | |
| Cyfanswm nifer y gwirfoddolwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn | **8** | | *2014-15* | *13* |
| Cyfanswm nifer oriau gweithio gwirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn | **210** | | *2014-15* | *236* |
| A yw'r achrediad Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwr gennych o ran y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol/NOS? | **Amherthnasol** | | | |
| Yn gryno, disgrifiwch yr hyfforddiant a'r cymorth a gynigir i wirfoddolwyr. | | | | |

Sylw'r Awdurdod:

Profiad Gwaith: Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn edrych ar gyfraniad gwirfoddolwyr fel rhan o'r broses Trawsnewid Gwasanaeth Llyfrgelloedd.

| **DASLICC 14 Gwariant gweithredol** | **2015-16** | **% y cyfanswm** | ***2014-15*** | ***% y cyfanswm*** |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant ar staff | £476,601 | *48%* | | *51%* |
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau | £124,815 | *13%* | | *12%* |
| Gwariant ar gynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu offer ac adeiladau | £35,884 | *4%* | | *9%* |
| Cyfanswm costau gweithredol eraill | £350,583 | *35%* | | *28%* |
| Cyfanswm y gwariant refeniw | £987,883 | *100%* | | *100%* |
| Cyfanswm y gwariant refeniw am bob 1,000 o'r boblogaeth | **£14,117** | | *£14,160* | |
| Cyfanswm gwariant cyfalaf | £115,914 | | | |
| Cyfanswm gwariant cyfalaf am bob 1,000 o'r boblogaeth | **£1,656** | | *£2,126* | |

Sylw'r Awdurdod:

Dadansoddiad Gwariant Cyfalaf ydi £ 114,562 Dibrisiant a £ 1,352 'capital refurbishment of premises'

| **DASLICC 15 Cost am bob ymweliad** | **2015-16** | **Cymhareb** | ***2014-15*** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gwariant refeniw | £ 987,883 | | |
| Cyfanswm yr incwm a gynhyrchir | £60,972.00 | | |
| Cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd | | | |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau i safleoedd y llyfrgell yn ystod y flwyddyn | 288,575 | | |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefannau'r llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn | 110,500 | **£2.32** | |

Sylw'r Awdurdod:

| **DASLICC 16 Oriau agor** | **2015-16** | **Fesul 1,000 o'r boblgth** | ***2014-15 Fesul 1,000 o'r boblgth*** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm oriau agor blynyddol yr holl fannau gwasanaeth | 10,462 | **150** | *149* |

Mae’r targed hwn wedi'i gyrraedd.

| | | % y cyfanswm | *2014-15 % y cyfanswm* |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny neu mewn argyfwng oherwydd diffyg yn yr adeilad neu staff ddim ar gael | 16 | | |
| Cyfanswm oriau agor a gynlluniwyd ar gyfer yr holl fannau gwasanaeth sefydlog | 9,900 | **0.2%** | *0%* |
| Cyfanswm nifer yr arosfannau llyfrgell deithiol ac achlysuron cludo i’r cartref a gollwyd o ganlyniad i ddiffyg yn y cerbyd neu staff ddim ar gael | 0 | | |
| Cyfanswm arosfannau’r llyfrgell deithiol ac achlysuron cludo i’r cartref a drefnwyd | 1,790 | **0.0%** | *0%* |

Sylw'r Awdurdod:

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17

## Ynys Môn

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2015-16

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen flynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Ynys Môn i Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

### 1) Crynodeb gweithredol

Roedd Ynys Môn wedi cyflawni 17 o'r 18 hawl graidd yn llawn, ac wedi cyflawni 1 yn rhannol.

O'r 7 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Ynys Môn wedi cyflawni 4 yn llawn a 3 yn rhannol.

Parhau mae problem gyfredol y lefelau staff isel, ac mae'r gwasanaeth yn ddisymud i raddau helaeth o ran ei berfformiad. Mae'r ad-drefnu arfaethedig yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaeth mewn nifer o feysydd pwysig; fodd bynnag gall hefyd fod yn gyfnod ansicr ac mae'n dal yn aneglur beth fydd yr effaith hirdymor ar y gwasanaeth a'i ddefnyddwyr.

- Cyflwynodd Ynys Môn dystiolaeth dda o effaith gwahanol agweddau'r gwasanaeth ar nifer o ddefnyddwyr unigol. Dywedodd 95% o'r rhai a fynychodd sesiynau hyfforddi eu bod wedi cael cymorth i gyflawni eu hamcanion.
- Mae gan hyfforddiant anffurfiol rôl bwysig, yn enwedig mewn llyfrgelloedd llai o faint nad oes ganddynt y gallu i gynnig sesiynau mwy ffurfiol.
- Mae'r gwasanaeth yn cyflawni'r safonau ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n cael eu cefnogi'n dda. Nifer yr ymweliadau rhithwir fesul pen y boblogaeth yw'r ail uchaf yng Nghymru.
- Mae lefelau'r derbyniadau yn gyffredinol a deunydd Cymraeg yn cyflawni'r safonau a osodwyd, er bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar ddeunydd i blant ac mae data'r gwasanaeth llyfrgell i ysgolion wedi'i gynnwys yn y ffigyrau. Mae defnydd da ar y cyfleusterau TGCh, er bod darparu mynediad i'r rhyngrwyd ar y llyfrgell deithiol yn broblem. Cafwyd gwelliant amlwg yng nghyflymder cyflenwi ceisiadau, sydd bellach yn uwch na'r canolrifau ar gyfer Cymru.
- Mae lefelau'r staff yn syrthio'n is na'r safonau a osodwyd, ac er na fu unrhyw ostyngiadau pellach eleni, mae'r maes hwn yn parhau i beri pryder i ddatblygiad y gwasanaeth. Mae cyfanswm y gwariant yn parhau ar lefel debyg i'r llynedd, yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru. Y gost net gyfartalog fesul ymweliad oedd £2.32, sydd ychydig yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru

O ran y pedwar maes yn y fframwaith (*Cwsmeriaid a chymunedau*; *Mynediad i bawb*; *Dysgu am oes*; ac *Arweinyddiaeth a datblygu*), o'i gymharu â gweddill Cymru, mae Ynys Môn yn perfformio'n dda ym maes eang *Dysgu am oes*. Mae'r perfformiad mewn meysydd eraill yn fwy cymysg, gyda rhai dangosyddion da a rhai ddim cystal.

Mae'r perfformiad yn gymharol debyg i'r llynedd, gyda rhai gwelliannau amlwg yng

nghyflymder cyflenwi ceisiadau, ac wrth gyflawni'r hawliau craidd. Mae problem barhaus lefelau staffio isel yn dal yno, ac mae adroddiadau blaenorol wedi nodi bod y gwasanaeth yn ddisymud i raddau helaeth o ran ei berfformiad. Mae'r ffurflen flynyddol hon yn dangos darlun mwy cymysg.

## 2) Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn yr hawliau craidd, y dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, y dangosyddion ansawdd sy'n dangos perfformiad yn erbyn awdurdodau eraill, ac yn mesur effaith. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

### *a) Hawliau craidd*

Roedd Ynys Môn wedi cyflawni 17 o'r 18 hawl graidd yn llawn, ac wedi cyflawni 1 yn rhannol. Mae hyn yn welliant o'r sefyllfa y llynedd, o ran bod pob hawl graidd ym maes *Mynediad i bawb* bellach wedi'u cyflawni. Ym maes *Arweinyddiaeth a datblygu*, mae cyllid yn dal i fod yn broblem o ran hyrwyddo'r gwasanaeth.

### *b) Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau*

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith. O'r 7 sydd â thargedau, mae Ynys Môn yn cyflawni 4 yn llawn a 3 yn rhannol:

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 Datblygiad unigol: | | Cyflawni yn rhannol |
| a) Cymorth TGCh | ✔ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau | ✘ | |
| c) Llythrennedd gwybodaeth | ✔ | |
| d) Cymorth e-lywodraeth | ✔ | |
| e) Datblygu darllenwyr | ✔ | |
| DA 5 Lleoliad mannau gwasanaeth | ✔ | Cyflawni yn llawn |
| DA 8 Deunydd darllen cyfoes: | | Cyflawni yn llawn |
| a) Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | ✔ | |
| neu Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | ✘ | |
| b) Cyfradd adnewyddu | ✔ | |
| DA 9 Deunydd darllen priodol: | | Cyflawni yn rhannol |
| a) % y gyllideb deunyddiau ar blant | ✘ | |
| b) % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | ✔ | |
| neu Wariant ar y Gymraeg fesul pen y boblogaeth | ✘ | |
| DA 10 Mynediad ar-lein: | | Cyflawni yn llawn |
| a) Pob man gwasanaeth | * | |
| Cyfrifiaduron fesul pen y boblogaeth | ✔ | |
| b) Darpariaeth Wi-Fi | ✔ | |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni yn rhannol |
| a) Staff fesul pen y boblogaeth | ✘ | |
| b) Staff proffesiynol fesul pen y boblogaeth | ✘ | |
| c) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | ✔ | |

| Dangosydd ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| d) Canran DPP | ✔ | |
| DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth | ✔ | Cyflawni yn llawn |

** Ni chaiff awdurdodau eu cosbi ar y dangosydd hwn os yw'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig mynediad i'r rhyngrwyd, er nad yw eu gwasanaethau teithiol yn gwneud hynny.*

Dyma'r un sefyllfa â llynedd.

### c) Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio casglu tystiolaeth o'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Drwy'r dangosyddion hyn a rhai eraill, mae'n bosibl gweld sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu tuag at agendâu addysgol, cymdeithasol, economaidd ac iechyd a lles, yn lleol a chenedlaethol. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn. Nid oedd pob awdurdod wedi casglu data ar gyfer y dangosyddion effaith, ac mae'r safleoedd felly wedi'u cynnwys yn ôl nifer yr ymatebwyr a nodir, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nid yw Ynys Môn eto wedi cynnal astudiaeth effaith yn y fframwaith presennol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | *amherthnasol* | | 86% | 93% | 99% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | *amherthnasol* | | 36% | 87% | 97% |
| % y plant sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | *amherthnasol* | | 57% | 73% | 93% |
| DA 4 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion: | 95% | *12/17* | 85% | 97% | 100% |

Cyflwynodd Ynys Môn ddwy astudiaeth achos effaith oedd yn dangos y gwir wahaniaeth y mae gwasanaeth llyfrgell yn ei wneud:

- Grŵp gwrando ar stori i bobl â nam ar eu golwg sydd wedi annog un cyfranogwr i ymuno â grwpiau eraill
- Sylwadau gan gyfranogwyr Amser Odli i blant ar werth y sesiynau a'r mwynhad a gawsant ohonynt

### d) Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i gymharu perfformiad rhwng awdurdodau. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Ynys Môn ar gyfer 2015-16. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn dod o arolygon cwsmeriaid sydd ond angen eu cynnal unwaith yn ystod y cyfnod fframwaith tair blynedd, neu ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigyrau a adroddwyd ar gyfer DA 4 i DA 16 y llynedd wedi'u hailadrodd er hwylustod cymharu. Noder bod y dangosyddion 'fesul pen' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2014/15* | *Safle* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | | | |
| a) sgiliau newydd | *amherthnasol* | | 23% | 72% | 92% | | |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrif | Uchaf | 2014/15 | Safle |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| c) iechyd a lles | *amherthnasol* | | 26% | 58% | 93% | | |
| d) lle diogel a chroesawgar | *amherthnasol* | | 84% | 97% | 100% | | |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | | |
| a) dewis ‘da iawn’ neu ‘da’ o lyfrau | *amherthnasol* | | 74% | 89% | 97% | | |
| b) gofal cwsmeriaid ‘da iawn’ neu ‘da’ | *amherthnasol* | | 90% | 97% | 99% | | |
| c) ‘da iawn’ neu ‘da’ yn gyffredinol; | *amherthnasol* | | 92% | 97% | 99% | | |
| d) sgôr plant allan o ddeg | *amherthnasol* | | 8.0 | 9.2 | 9.5 | | |
| DA 4 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | | | | | | | |
| a) mynychwyr fesul pen y boblogaeth | 5 | *22* | 5 | 30 | 390 | *11* | *18* |
| c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen y boblogaeth | 219 | *8/19* | 3 | 195 | 1017 | *174* | *9 / 21* |
| DA 6 Defnyddio’r llyfrgell | | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 4,124 | *10* | 2,467 | 3,967 | 6,185 | *4,166* | *12* |
| b) ymweliadau rhithwir fesul pen | 1,579 | *2* | 340 | 976 | 2,475 | *1,555* | *3* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 114 | *18* | 45 | 157 | 273 | *155* | *12* |
| DA 7 mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen | 193 | *13* | 60 | 223 | 666 | *202* | *11* |
| DA 11 Defnyddio TGCh - % yr amser ar gael i’w defnyddio gan y cyhoedd | | | | | | | |
| a) offer | 59% | *2* | 20% | 31% | 68% | *51%* | *3* |
| b) gwasanaethau Wi-Fi | *amherthnasol* | | 20% | 60% | 90% | *Ni wyddys* | |
| DA 12 Cyflenwi ceisiadau | | | | | | | |
| a) % ar gael o fewn 7 diwrnod | 73% | *10* | 57% | 71% | 86% | *65%* | *21* |
| b) % ar gael o fewn 15 diwrnod | 91% | *4* | 71% | 86% | 96% | *84%* | *12* |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau | | | | | | | |
| (v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr | 8 | *18* | 0 | 18 | 103 | *13* | *12* |
| b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr | 210 | *17* | 0 | 582 | 3,699 | *236* | *15* |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen y boblogaeth | £14,117 | *7/21* | £7,516 | £12,749 | £18,760 | *£14,160* | *11* |
| b) % ar staff | 48% | *18/21* | 40% | 58% | 79% | *51%* | *16* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 13% | *10/21* | 7% | 13% | 23% | *12%* | *15* |
| % ar offer ac adeiladau | 4% | *10/21* | 1% | 3% | 20% | *9%* | *6* |
| % ar gostau gweithredol eraill; | 35% | *2/21* | 0% | 20% | 39% | *28%* | *8* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen y boblogaeth | £1,656 | *4/21* | £0 | £272 | £4,677 | *£2,126* | *1* |
| DA 15 Cost net am bob ymweliad | £2.32 | *12/21* | £1.83 | £2.43 | £3.53 | * | |
| DA 16 Oriau agor *(gweler y nodyn)* | | | | | | | |
| (ii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.16% | *22* | 0.00% | 0.00% | 0.16% | *0.04%* | *14* |
| b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i’r cartref a fethwyd | 0.00% | *1/19* | 0.00% | 0.71% | 23.44% | *0%* | *1 / 19* |

*Nodyn: Mae’r safleoedd yma wedi’u troi o chwith, sef mai 1 yw’r awdurdod sydd â’r sgôr isaf (perfformio orau)*

** Ni ddarparwyd data incwm ar gyfer 2014-15 i gyfrifo’r ffigwr hwn.*

## 3) Dadansoddi perfformiad

Mae’r hawliau craidd a’r dangosyddion ansawdd wedi cael eu rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn erbyn y dangosyddion ansawdd yn y pedwar maes hynny ac yn cymharu â chanlyniadau blwyddyn gyntaf y fframwaith.

### *a) Cwsmeriaid a chymunedau*

Nid yw Ynys Môn eto wedi cynnal arolwg cwsmeriaid ar gyfer y fframwaith hwn. Cynigir yr

ystod lawn o wasanaethau i gefnogi datblygiad unigol yn y llyfrgelloedd mwyaf eu maint, ond mae'r awdurdod yn nodi nad oes gan y tair llyfrgell llai o faint ddigon o gyfrifiaduron i gynnal sesiynau sgiliau digidol ffurfiol. Y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol yw'r isaf yng Nghymru, gyda hyfforddiant anffurfiol i ddefnyddwyr ar lefel cryn dipyn yn uwch, gan fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

### *b) Mynediad i bawb*

Ynys Môn yw'r unig awdurdod i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth gan fod o fewn cyrraedd 100%. Fodd bynnag, nodir bod hyn yn cael ei gyfrifo ar sail 'radiws' yn hytrach na llwybrau ffyrdd/trafnidiaeth fel yr argymhellir yn y canllawiau. Cafwyd gostyngiad bychan yn nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd o'i gymharu â'r llynedd. Mae nifer yr ymweliadau rhithwir fesul pen y boblogaeth wedi cynyddu, ac un awdurdod arall yn unig a gofnododd lefel sy'n uwch. Mae'r gwasanaeth yn cynnig rhaglen helaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau er bod y nifer sy'n mynychu'r rhain ychydig yn is o'i gymharu â'r llynedd.

### *c) Dysgu am oes*

Mae Ynys Môn yn parhau i gyflawni targed y derbyniadau ac yn cynnwys e-lyfrau a stoc gwasanaeth llyfrgell yr ysgolion, ac mae'n adrodd cynnydd o 16.5% mewn derbyniadau o'i gymharu â 2014-15. Mae gwariant ar wasanaeth llyfrgell yr ysgolion wedi'i gynnwys yn y ffigwr ar gyfer prynu deunydd plant, sydd, ar 26%, yn dangos ychydig mwy o gydbwysedd yn y gyllideb o'i gymharu â 29% y llynedd, a 17% o'r boblogaeth. Mae Ynys Môn yn cyflawni'r targed ar brynu deunydd Cymraeg drwy wario 12.2% o'r gyllideb deunyddiau arno, sef y ffigwr uchaf ond un yng Nghymru.

Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig cyfrifiaduron at ddefnydd y cyhoedd ac mae defnydd da ar gyfleusterau rhyngrwyd TGCh, a'r defnydd wedi cynyddu o'i gymharu â'r llynedd. Nid yw defnydd Wi-Fi yn cael ei gofnodi. Bu gwelliant sylweddol yng nghyflymder cyflenwi ceisiadau o'i gymharu â 2014-15, ac mae hwn bellach yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru gyfan.

### *d) Arweinyddiaeth a datblygu*

Nid yw Ynys Môn wedi cyflawni'r targedau ar gyfer staffio cyffredinol nac ar gyfer staff proffesiynol, ac mae'n nodi bod y broses ad-drefnu bresennol wedi cymhlethu'r posibilrwydd o lenwi swyddi gwag. Mae hyn yn anochel wedi cael sgil-effaith ar y gwasanaeth. Mae pennaeth y gwasanaeth yn llyfrgellydd cymwysedig, ac mae'r awdurdod yn buddsoddi'n briodol mewn hyfforddiant staff. Mae'r 8 gwirfoddolwr ar leoliadau profiad gwaith ac yn rhoi cyfartaledd o 26 awr yr un. Mae'r gwasanaeth yn ystyried cyfraniadau gwirfoddol fel rhan o'r broses o drawsnewid y gwasanaeth llyfrgell.

Mae'r cyfanswm gwariant fesul pen y boblogaeth wedi'i gadw ar lefel debyg i'r llynedd, ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae'r gwariant cyfalaf a nodwyd yn cynnwys dibrisiant. Y gost gros gyfartalog fesul ymweliad yn 2015-16 oedd £2.48, o'i gymharu â £2.47 y llynedd.

Roedd yr oriau agor yn cyflawni'r safon, ac ni chollwyd unrhyw arhosfan yn y gwasanaeth teithiol yn ystod y flwyddyn.

## 4) Cyd-destun strategol

Cyflwynodd Ynys Môn ddatganiad clir ar gyfraniad y gwasanaeth llyfrgell tuag at flaenoriaethau ac amcanion ehangach y llywodraeth, a hynny ym meysydd dysgu, darllen a

llythrennedd, lles cymunedol, sgiliau ac adfywio economaidd, cyfranogiad a chynhwysiant digidol, iechyd a lles, hunaniaeth ddiwylliannol a thlodi.

### 5) Cyfeiriad i'r dyfodol

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yng nghynllun corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn i gyflwyno model diwygiedig ar gyfer y gwasanaethau llyfrgell ar yr ynys, yn seiliedig ar ddwy lyfrgell ardal, wyth llyfrgell gymunedol a gwasanaeth llyfrgell deithiol wedi'i resymoli.

### 6) Casgliad

Parhau mae problem gyfredol y lefelau staff isel, ac mae'r gwasanaeth yn ddisymud i raddau helaeth o ran ei berfformiad. Mae'r ad-drefnu arfaethedig yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu'r gwasanaeth mewn nifer o feysydd; fodd bynnag gall hefyd fod yn gyfnod ansicr ac mae'n dal yn aneglur beth fydd yr effaith hirdymor ar y gwasanaeth a'i ddefnyddwyr.

Awdurdod:

1. Astudiaeth achos o'r effaith y mae'r llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn, neu ar grŵp o unigolion, yn ystod y flwyddyn. Disgrifiwch y defnydd a wneir o'r gwasanaeth, a'r gwahaniaeth y mae'r defnydd hwnnw wedi'i gael ar yr unigolyn neu'r grŵp dan sylw. Gallwch gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos (500 o eiriau yr un).

   a)

   b)

   c)

   d)

2. Ysgrifennwch ddarn naratif sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru (500 - 1,000 o eiriau)

## Awdurdod: Cyngor Sir Ynys Môn

1. Astudiaeth achos o’r effaith y mae’r llyfrgell wedi’i gael ar unigolyn, neu ar grŵp o unigolion, yn ystod y flwyddyn. Disgrifiwch y defnydd a wneir o’r gwasanaeth, a’r gwahaniaeth y mae’r defnydd hwnnw wedi’i gael ar yr unigolyn neu’r grŵp dan sylw. Gallwch gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos (500 o eiriau yr un).

### A Grŵp Gwrando Stori

Cysylltwyd â ni yn gynnar yn 2015 gan ddynes lleol a oedd ynglhwm â'r RNIB. Roedd ganddi diddordeb mewn sefydlu grŵp gwrando ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall.

Mae'r grwpiau gwrando stori yn sesiynau bywiog, lle y gall cyfranogwyr wrando ar gymysgedd o straeon byrion, pytiau o lyfrau a cherddi ysgafn, Mae’r darllen yn cael ei wneud gan grwp o wirfoddolwyr, gan gynnwys staff y llyfrgell. Maent hefyd yn gyfle i gymdeithasu dros baned o de a chyfle i fenthyca eitemau o'r llyfrgell.

Mae darllen yn rhan hanfodol ym mywydau pobl ddall a rhannol ddall, gan eu helpu i oresgyn heriau bob dydd, gan roi hwb i’w lles meddyliol, gan eu galluogi i ddatblygu sgiliau newydd a darparu cyfleoedd ar gyfer cyswllt cymdeithasol drwy y grwpiau darllen. Mae darllen yn chwarae rôl bwysig wrth helpu oedolion dall a rhannol ddall i ymdopi â phwysau bywyd gan sicrhau eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd ystyrlon sy'n pasio amser, yn meddiannu y meddwl.

Sefydlodd y grŵp gwreiddiol yng Nghaergybi ac roedd yn gymaint o lwyddiant fel y cafodd ail grŵp ei sefydlu ym Mhorthaethwy gyda trydydd grwp ar y gweill yn y flwyddyn newydd. Mae'r grwpiau yn cael eu cynnal ar gost isel iawn, fodd bynnag, mae cais am grant yn cael ei baratoi i'r Gronfa Loteri Fawr; Cymru i Bawb, yn chwilio am gymorth gyda marchnata, costau cludiant a chyfarpar sylfaenol - byddai hyn yn sicrhau cynaliadwyedd i’r grwp

"*Rwy'n mwynhau dod i'r grŵp gwrando yn y llyfrgell. Roeddwn i'n arfer darllen llawer o lyfrau cyn fy ngolwg fynd mor ddrwg. Rwy'n mwynhau clywed y straeon a mae Rhian wedi dweud wrthym am y llyfrau e-sain. Rwy'n credu y byddaf yn cael fy mab i roi rhai ar fy i-pad. Ers dod i'r grŵp yma rwyf wedi dod yn ymwybodol o grwpiau eraill y gallaf fynd i hefyd. Rwy'n edrych ymlaen at ddod yma* "

Aelod Grwp Caergybi Gwrando

### B. Rhannu Rhigwm / Amser Rhigymau

Cynhalwyd 123 o sesiynau rhannu rhigwm yn ystod y flwyddyn gan gyrraedd 3672 o rieni, gwarcheidwad a phlant. Mae'r sesiynau yn cael eu targedu at blant cyn oed ysgol ac oedran ein mynychwr ieuengahf oedd dim ond 4 diwrnod oed. Mae'r sesiynau llyfrgell yn cael eu cynnal gan ein hadran Plant mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, er enghraifft TWF, Menter Iaith a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Sesiynau ar ffurf canu,

rhigymau a stori neu ddwy, gyda llawer o gyfle i gymdeithasu. Maent yn cael eu rhedeg mewn 4 o'n llyfrgelloedd yn wythnosol yn ystod y tymor.

"Mae'r sesiynau yn gret, dwi a Gwen wrth fy modd yn cael dod, Mae Gwen yn mwynhau gwrando ar y stori a'r canu. Mae'r sesiynau wedi rhoi hyder I mi I ddarllen yn gyson gyda gwen, rhywbeth na fyddwn wedi ei wneud yn flaenorol, er dwi ddim mor dda ac Eirian am wneud y lleisiau a'r symudiadau!"

*Gwen 7mis a'i Fam*

"Roeddwn yn ansicr cyn dod, rhag ofn byddai Luke yn crio trwy'r sesiwn, ond mae'r grwp yn gyfeillgar iawn, ac er bod y plant yn swnllyd weithio , does neb yn meindio. Dwi'n meddwl ei fod yn syniad mor dda, gan bod darllen mor bwysig I blant"

*Luke 12 months a'i Fam*

"Dwi'n dod a Twm i'r sesiynau, er mwyn i mam gael 'chydig o amser iddi hi ei hun. Pan oedd fy mhlant I yn fach, roedd gen I ofn eu bod yn rhy swnllyd, ond dydi llyfrgelloedd ddim fel yna mwyach. Mae darllen mor hanfodol , Mi wnai ddod a Twm a'r lleill yma cyn amlad a phosibl"

*Twm 18months a'i Nain*

"Fy ymwelydd Iechyd a soniodd am y sesiynau yma. Doeddwn ddim yn aelod o'r llyfrgell, ond mi ydym ni'n dwy rwan, mae'r ddwy ohonom yn benthyca yn rheoliadd . Dwi'n hoff o wrando ar lyfrau e-wrando, a dwi di sylweddoli eu bod yn helpu i gael Mia i ddisgyn i gysgu!!!"

*Mia 5months a'i Fam*

## 2. Ysgrifennwch ddarn naratif sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru (500 - 1,000 o eiriau)

### Gwasanaeth Llyfrgelloedd Ynys Môn: Cyfrannu at tuag at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a nodau strategol.

**Dysgu** - Mae Gwasanaeth Llyfrgell Sir Fôn yn cefnogi pob math o astudiaeth anffurfiol a rhai sy'n cwblhau cymwysterau ffurfiol. Yn cefnogi dysgu trwy holl gamau bywyd o lyfrau i fabanod ac odli i sesiynau syrffiwr arian.

**Darllen a llythrennedd** - Mae Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn darparu mynediad i gyfoeth o lenyddiaeth, straeon, a gwybodaeth sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd. Rydym yn casglu llyfrau wedi'u targedu at blant, pobl ifanc ac oedolion sydd â lefelau llythrennedd gwael a gweithio gyda'n partneriaid i gyflwyno sesiynau mewn sgiliau sylfaenol. Mae'r Gwasanaeth llyfrgell Ysgolion Ynys Môn yn hyrwyddo darllen er mwyn pleser i'n plant oedran ysgol gynradd ac yn cefnogi athrawon gyda phecynnau chopi lluosog a chasgliadau thema i gefnogi'r cwricwlwm.

**Lles cymunedol** -Mae llyfrgelloedd yn ganolog i gymunedau Ynys Môn, yn darparu man cyfarfod i grwpiau lleol, darparu gwybodaeth gymunedol ac ystod eang o weithgareddau ar gyfer pob oedran.

**Sgiliau ac adfywio economaidd** – Mae llyfrgelloedd yn helpu i ysgogi'r economi leol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer sgiliau a datblygu gweithlu, gan ddarparu gwybodaeth a chyngor busnes a thynnu trigolion i mewn i'r trefi a'r pentrefi i wneud defnydd o siopau a busnesau lleol. Mae gweithio mewn partneriaeth yn golygu bod y Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau yn enwedig ym maes cynhwysiant digidol a llythrennedd digidol. Mae llyfrgelloedd hefyd yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer gwybodaeth i dwristiaid a mynediad i'r rhyngrwyd drwy ein TG a Wi-Fi.

**Cynhwysiant digidol a chyfranogiad** - Mae Llyfrgelloedd Ynys Môn yn cefnogi preswylwyr i fynd ar-lein drwy fynediad at fand eang am ddim, yn galluogi mynediad i'r Rhyngrwyd yn eu hadeiladau. Mae rhaglen lawn o gyrsiau TG yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Mae gan bob llyfrgell gyfleusterau Wi-Fi.

**Iechyd a Lles -** Mae Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn cyfrannu at yr agenda hwn mewn sawl ffordd - o weithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i ddarparu 'Llyfrau ar Bresgripsiwn', gan gynnig casgliadau arbennig wedi'u hanelu at bobl sy'n byw gyda dementia, therapiwtig a rennir grwpiau darllen a grwpiau darllen yn uchel ddarllen i bobl ddall a rhannol trigolion ddall. Rydym hefyd yn borth i wybodaeth iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth caeth i'w tai yn enghraifft craidd y manteision darllen a gall y gwasanaeth llyfrgell yn gyffredinol yn gwneud unigolion.

**Hunaniaeth ddiwylliannol** - Mae gan lyfrgell Ynys Môn gasgliad hanes lleol helaeth, gan gysylltu eu lle ac iaith . Rydym hefyd yn rhoi pwyslais mawr ar ein stoc yr iaith Gymraeg ac yn rhedeg sawl grŵp darllen i ddysgwyr Cymraeg. Rydan ni'n cynnal digwyddiadau a gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn a hyrwyddo adnoddau'r gwasanaeth llyfrgell.

**Tlodi** – Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn chwarae rhan allweddol wrth helpu rhai sydd mewn tlodi neu mewn perygl o fod mewn tlodi; hyrwyddo llythrennedd; gan ddarparu mynediad am ddim i lyfrau ac adnoddau; mynediad am ddim i TG a'r rhyngrwyd, a mynediad am ddim i gyrsiau sgiliau digidol.

### 3.Rhowch ddatganiad byr ynghylch cyfeiriad a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell (hyd dangosol 200 o eiriau).

Rydym yn gweithio tuag at wireddu'r ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Corfforaethol CSYM 2013-2017 i:

• Ymchwilio i fodel diwygiedig ar gyfer y ddarpariaeth o Lyfrgelloedd

Bydd hyn yn golygu:

• Cyflwyno model newydd ar gyfer gwasanaethau llyfrgell ar yr ynys.

• Sicrhau darpariaeth â ffocws a chynaliadwy ar gyfer y gwasanaeth hwn.

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd (yng nghyd-destun ei waith strategol, y dyletswyddau statudol, ymgynghori â'r cyhoedd a'r gyllideb sydd ar gael) yn ymchwilio symud i fodel yn seiliedig ar:

A. Llyfrgelloedd Ardal (Caergybi a Llangefni)

B. Llyfrgelloedd Cymunedol (Gwasanaethau Craidd a ddarperir gan y Cyngor) - y 8 arall

C. Gwasanaethau Symudol - rhesymoli a newid patrwm

D. Pwynt cyswllt Cymunedol / linc - os nad oes awydd am lyfrgelloedd cymunedol mae 'na phosibilrwydd y bydd y ddarpariaeth llyfrgell bresennol yn dod i ben, fodd bynnag, rhaid sefydlu 'Pwynt cyswllt Cymunedol / linc' er mwyn lliniaru'r effaith ar y gymuned ac i gynnal mynediad i drigolion y gymuned drwy fynediad arall / ymagwedd wahanol at y gwasanaeth

Bydd newid yn digwydd ar draws y rhwydwaith presennol o lyfrgelloedd. Bydd yn cynnwys adolygu oriau agor a staffio yn y llyfrgelloedd ardal, rhesymoli oriau agor a staffio a newidiadau yn y trefniadau rheoli adeiladau â llyfrgelloedd cymunedol, ac adolygiad o wasanaethau Llyfrgell Deithiol.

Mae'r swyddogion y gwasanaeth a'r cyngor yn parhau i drafod cyfranogiad cymunedol gyda chymunedau ar Ynys Môn. Mae'r broses hon yn fodd o ddiweddaru'r cymunedau o ein cynllunio, lledaenu gwybodaeth, a chasglu adborth ar yr hyn yr ydym yn ei gynnig.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus pellach wedi ei gynllunio ar gyfer Haf 2017 gydag adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2017.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 21 Tachwedd 2016 |
| **Pwnc:** | Newidiadau i'r Polisi Codi Tâl - Gwasanaethau Gofal Cartref |
| **Aelod (au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Alwyn Jones |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | Dafydd Bulman - Rheolwr Busnes a Thrawsnewid Strategol<br>dafyddbulman@ynysmon.gov.uk<br>01286 752013<br>Delyth Jones - Uwch Swyddog Cyllid<br>Delythjones@ynysmon.gov.uk<br>01248 752785 |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl aelodau |

**Mater ar gyfer Sgriwtini**

1. Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol, dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer codi ffioedd am ofal cartref er mwyn sicrhau y ceir lefelau priodol o incwm yn seiliedig ar allu person i dalu.

2. Mae 4 opsiwn ar gael i ni, sef
    - Dim Newid
    - Gweithredu'r polisi ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth newydd yn unig.
    - Ei weithredu mewn dau gam – sef 50% y flwyddyn am 2 flynedd
    - Gweithredu'r Polisi Codi Tâl a argymhellir o 1/04/2017.

3. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar yr opsiynau hyn gydag unigolion a effeithir rhwng Tachwedd ac Ionawr a bydd argymhelliad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2017

**1.0 Rhagarweiniad**

Bwriad y fframwaith codi tâl ac asesu ariannol a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yw sicrhau bod tâl a godir am ofal, os codir y fath dâl, yn gyson, yn deg ac yn gwbl eglur. Yr egwyddor gyffredinol yw nad oes ond raid i bobl dalu'r hyn sy'n fforddiadwy iddynt. Cynhelir asesiad ariannol ar bobl sydd angen gofal a chymorth a hynny er mwyn sefydlu faint y bydd angen iddynt ei dalu, os o gwbl, tuag at y gofal y maent yn ei dderbyn. Wrth benderfynu a ddylid codi tâl ac wrth bennu maint y tâl a godir, rhaid i awdurdodau lleol gymryd i ystyriaeth pa gyfraniad neu ad-daliadau y bydd angen eu gwneud,

sef yr egwyddorion y mae’r fframwaith hwn yn seiliedig arnynt.

Wrth wneud hyn, rhaid i ni:

- codi tâl yn gyfartal fel bod y rheini a chanddynt anghenion tebyg am ofal a chymorth yn cael eu trin yr un fath ac er mwyn cael gwared ar anghysondebau rhwng y tâl a godir am wahanol fathau o ofal a chymorth;
- bod yn gyson, i gael gwared ar wahaniaethau yn y ffordd y mae pobl yn cael eu hasesu’n ariannol i benderfynu’r tâl a godir arnynt;
- sicrhau na chodir mwy ar bobl nag y mae'n rhesymol ymarferol iddynt ei dalu ac na ddylid codi tâl arnynt sy’n fwy na'r gost i'r awdurdod o ddarparu neu drefnu’r gofal a'r cymorth y maent yn ei dderbyn neu y byddant yn ei drefnu drostynt eu hunain drwy Daliadau Uniongyrchol;
- bod yn glir ac yn dryloyw, fel bod pobl yn gwybod faint a godir arnynt; hyrwyddo canlyniadau llesiant, cynhwysiad cymdeithasol a chefnogi'r weledigaeth o annibyniaeth, llais a rheolaeth;
- helpu gofalwyr i ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac i ofalu’n effeithiol ac yn ddiogel;
- canolbwyntio ar y person, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o sefyllfaoedd gofal a gofalu a’r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael i helpu i gwrdd ag anghenion pobl a chanlyniadau llesiant;
- sicrhau nad yw'r tâl a godir am y gwasanaeth yn fwy na chostau darparu'r gwasanaeth

**1.1 Sefyllfaoedd lle na chaiff yr awdurdod lleol godi tâl.**

Ni chaniateir i awdurdod lleol godi tâl am rai mathau o ofal a chymorth y mae'n rhaid eu trefnu yn rhad ac am ddim:

- cymorth a ddarperir ar ffurf gwasanaeth ail-alluogi a drefnir o dan Ran 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) neu Ran 4 (Cwrdd ag anghenion) y Ddeddf, neu wasanaeth ail-alluogi a drefnir fel taliadau uniongyrchol o dan Adrannau 50 neu 52 (Taliadau Uniongyrchol) y Ddeddf, am hyd at 6 wythnos i bobl i’w galluogi i gadw neu i adennill eu gallu i fyw’n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. (Wrth ddarparu taliadau uniongyrchol neu wasanaeth ail-alluogi i sicrhau darpariaeth o'r fath, dylai awdurdodau lleol ystyried a ddylid ymestyn y cyfnod hwn mewn achosion unigol lle byddai’r canlyniadau i’r unigolyn yn well pe bai’n

cael y cymorth ail-alluogi am ddim am gyfnod hirach, megis y rheini y byddant angen cymorth am gyfnod hwy oherwydd nam ar y golwg);

- gofal a chymorth a roddir i bobl â chlefyd Creutzfeldt-Jacob;

- gwasanaethau / cymorth ôl-ofal a ddarperir o dan adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983;

- ni chaniateir codi tâl am asesu anghenion, cynllunio gofal, cynlluniau gofal, darparu datganiadau tâl nac ychwaith i gynnal adolygiad o benderfyniad i godi tâl neu i adolygu swm y tâl a godir gan nad yw'r prosesau hyn yn gyfystyr â darparu gofal a chymorth. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth a chyngor;

- cludiant i wasanaeth dydd lle darperir y cludiant fel rhan o wasanaeth i gwrdd ag anghenion yr unigolyn.

- eiriolaeth broffesiynol annibynnol pan fo'r awdurdod lleol wedi trefnu i'w ddarparu yn unol â'r cod ymarfer ar eiriolaeth o dan Ran 10 (Cwynion, Sylwadau a Gwasanaethau Eiriolaeth) y Ddeddf lle na all yr unigolyn oresgyn y rhwystr (au) sy'n ei atal rhag cymryd rhan lawn yn y prosesau asesu, gofal, cynllunio gofal, adolygu a diogelu heb gymorth gan unigolyn priodol, ac nid oedd y fath unigolyn ar gael.

**1.2 Cynnal asesiad ariannol:**

Gan y bydd angen i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth y tu allan i gartref gofal dalu eu costau byw o ddydd i ddydd megis costau rhent, bwyd a chyfleustodau, mae'r fframwaith codi tâl ac asesu ariannol yn ceisio sicrhau bod ganddynt ddigon o arian i dalu'r costau hyn. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gan unrhyw unigolyn y codir tâl arno isafswm incwm sy'n cyfateb i "hawl sylfaenol", yn ogystal â byffer o 35% o'r swm hwnnw. Mae rheoliadau 12 a 27 y Rheoliadau Codi Tâl (yr isafswm incwm ar gyfer person sy'n derbyn gofal a chymorth y tu allan i gartref preswyl) yn diffinio "hawl sylfaenol" ac yn nodi sut i weithredu hynny a'r ffactorau y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth ym mhob achos. Yn ogystal, er mwyn helpu gyda gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd, rhaid i'r rheini y codir tâl arnynt fod â 10% ychwanegol o'u "hawl sylfaenol" ar ôl tuag at y gwariant hwnnw. Nodir isod y lefelau incwm gweddilliol a oedd mewn grym yn ystod 2016/17: -

Pobl o Oed Pensiwn: £ 225.62
Pobl o dan Oed Pensiwn: £ 152.76

Yn ogystal, mae trothwy cynilion / cyfalaf o £ 24,000

**1.3 Taliadau Cyfredol**

Yn hanesyddol, mae polisi codi tâl Cyngor Sir Ynys Môn am ofal cartref wedi bod yn seiliedig ar sbardunau budd-dal / lwfans, gydag uchafswm tâl o £60 yr wythnos ar gyfer y rheini y mae eu cynilion a / neu eu cyfalaf yn fwy na £ 24,000 neu y mae eu hincwm yn uwch na'r lefel weddilliol oni bai eu bod:

| | |
|---|---|
| Ar Gredyd Gwarantedig / Cymhorthdal Incwm - Ddim yn Derbyn Lwfans Gweini Uwch / Elfen Ofal y Lwfans Byw i'r Anabl | Dim tâl |
| Ar Gredyd Gwarantedig / Cymhorthdal Incwm<br><br>Yn derbyn Lwfans Gweini Uwch / Elfen Ofal y Lwfans Byw i'r Anabl neu Bremiwm Anabledd Difrifol. | £ 12.28 yr wythnos<br><br>£ 15.00 yr wythnos |
| Eraill | £ 60 yr wythnos oni bai bod incwm gweddilliol y derbynnydd yn llai na'r lefel incwm dynodedig. |

Fel awdurdod lleol, rydym yn gwario £4,445,480 ar hyn o bryd ar ofal cartref yn 2015/16 ac mae defnyddwyr gwasanaethau yn cyfrannu £462,810.

**1.4 Mater ar gyfer sgriwtini:**

Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 cynhaliwyd adolygiad gan swyddogion er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth newydd, ac i symleiddio'r broses asesu sydd gan y Cyngor i adennill y gost o ddarparu gwasanaethau. Mae angen mabwysiadu polisi sy’n seiliedig ar “fandiau” er mwyn cydymffurfio â pharamedrau system gorfforaethol y Cyngor ar gyfer taliadau / anfonebau ac asesu ariannol.

Felly, egwyddorion y newidiadau a awgrymir yw:

- Cydymffurfio â chanllawiau statudol
- Strwythur codi tâl tecach a
- Er mwyn i'r Cyngor fedru adennill y gost o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Cyn gweithredu unrhyw newidiadau mae'n rhaid i'r Cyngor ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth ar unrhyw newidiadau arfaethedig a bydd angen cwblhau'r ymgynghoriad cyn i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad.

**1.5 Mae'r swyddogion yn argymell ymgynghori ar y Polisi Codi Tâl a ganlyn:**

Yn dilyn cynnal ailasesiad ariannol o'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth cynigir codi tâl fel a ganlyn:

**Cost Uned am 2016/17:** £15.50 yr awr

| OED PENSIWN | Tâl Wythnosol | DAN OED PENSIWN |
|---|---|---|
| Incwm o dan £237.89 yr wythnos | DIM TÂL | Incwm o dan £165.03 yr wythnos |
| Incwm rhwng | | Incwm rhwng |
| £ 237.90 - £ 240.61 | £ 12.28 | £ 165.04 - £ 167.75 |
| £ 240.62 - £ 255.61 | £ 15.00 | £ 167.76 - £ 182.75 |
| £ 255.62 - £ 270.61 | £ 30.00 | £ 182.76 - £ 197.75 |
| £ 270.62 - £ 279.86 | £ 45.00 | £ 197.76 - £ 207.00 |
| £ 279.87 - £ 285.61 | £ 54.25 | £ 207.01 - £ 212.75 |
| Incwm ar neu dros £285.62 neu gynilion dros £24,000.00 | £ 60.00 | Incwm ar neu dros £212.76 neu gynilion dros £24,000.00 |

Bydd incwm o'r budd-daliadau a'r ffynonellau lles canlynol yn cael ei anwybyddu'n llawn:

(A) Taliadau Uniongyrchol;
(B) Taliadau Incwm Gwarantedig a wneir i Gynllun Iawndal Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog;
(C) Elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl;
(Ch) Elfen symudedd y Taliadau Annibyniaeth Bersonol;
(D) Credyd Treth Gwaith.

Bydd incwm o'r budd-daliadau canlynol yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ystyried yr hyn y gall person fforddio ei dalu tuag at gostau gofal a'u cymorth:

(A) Lwfans Gweini, yn cynnwys Lwfans Gweini Cyson a
Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol;
(B) Lwfans Profedigaeth;
(C) Lwfans Gofalwyr;
(Ch) Lwfans Byw i'r Anabl (elfen ofal);
(D) Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu'r budd-daliadau y mae’n eu disodli megis
Lwfans Anabledd Difrifol a Budd-dal Analluogrwydd;
(Dd) Cymhorthdal Incwm;
(E) Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu fudd-daliadau cyfatebol ;
(F) Lwfans Ceisio Gwaith;
(FF) Lwfans Mamolaeth;
(G) Credyd Pensiwn;
(Ng) Taliad Annibyniaeth Bersonol (elfen Byw Dyddiol);
(H) Pensiwn Gwlad;
(I) Credyd Cynhwysol.

Yn gynnar yn 2017 ‘rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynnydd yn y tâl uchaf y gall defnyddwyr gwasanaeth ei dalu am ofal yn y cartref, sef £60 ar hyn o bryd. Nid yw'n glir ar hyn o bryd beth fydd y cynnydd hwn.

Credwn y bydd y cynnydd hwn yn cyd-ddigwydd â'r cynnydd o £24,000 i £30,000 yn y cynilion a / neu’r cyfalaf y gall unigolyn eu cadw tra'n byw mewn lleoliad preswyl tymor hir. Mae'n bosib y bydd y llywodraeth yn disgwyl i'r Cyngor ddefnyddio’r arian yn sgil cynnydd posib yn y ffioedd gofal cartref i gydbwyso’r incwm a gollir o leoliadau preswyl. Rydym yn monitro datblygiadau’r hyn gan Lywodraeth Cymru.


Os cadarnheir y newidiadau hyn ‘rydym yn argymell bod disgwyl i’r rheini yr aseswyd bod angen iddynt dalu'r tâl uwch yn gwneud hynny.


Yn seiliedig ar weithredu'r dull bandio a nodir, bydd y Polisi Codi Tâl yn effeithio ar y niferoedd canlynol o ddefnyddwyr gwasanaethau: -:

| Nifer y defnyddwyr gwasanaeth ar hyn o bryd* | Manylion am y cynnydd neu’r gostyngiad wythnosol yn y taliadau |
|---|---|
| 42 | Yn cynyddu o £15.00 i £60.00 |
| 26 | Yn cynyddu o £15.00 i £30.00, £45.00 neu £54.25 |
| 12 | Gostyngiad o £5.00 i £00.00 |
| 6 | Gostyngiad o £15.00 i £12.28 |

*** Nifer yn seiliedig ar giplun o’r sefyllfa ym mis Gorffennaf 2016**

**Rhagwelir refeniw blynyddol ychwanegol (yn seiliedig ar y defnyddwyr gwasanaeth ar hyn o bryd) o £124,978.**




**1.6 Ystyriaethau eraill:**

Ystyriodd y swyddogion 4 opsiwn:

| Opsiwn | Gweithred | Manteision | Risgiau |
|---|---|---|---|
| 1 | Dim Newid | Dim newid i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth. | Ddim yn sicrhau'r cyfraniad uchaf. |
| 2 | Gweithredu'r polisi ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth newydd yn | Dim newid i'r defnyddwyr gwasanaeth cyfredol. | Dim cydraddoldeb rhwng y defnyddwyr gwasanaeth cyfredol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | unig. | | a'r defnyddwyr newydd.<br><br>Ddim yn sicrhau'r cyfraniad uchaf yn y tymor byr.<br><br>Mwy o gwynion. |
| 3 | Ei weithredu mewn dau gam – sef 50% y flwyddyn am 2 flynedd | Cynnydd graddol mewn taliadau i ddefnyddwyr gwasanaeth dros 2 flynedd.<br><br>Llai o faich ariannol ar unigolion. | Ddim yn sicrhau'r cyfraniad uchaf am 2 flynedd.<br><br>Mwy o gwynion.<br><br>Gallai gweithredu'r polisi mewn dau gam fod yn her i'r system gyfredol. |
| 4 | Gweithredu'r Polisi Codi Tâl a argymhellir o 1/04/2017. | Sicrhau'r cyfraniad uchaf<br><br>Cydymffurfio'n llawn â'r cod ymarfer.<br><br>Cydraddoldeb rhwng defnyddwyr gwasanaeth. | Cynnydd yn lefel y cwynion. |

Os gweithredir opsiwn 3 neu opsiwn 4 bydd raid cynnal adolygiad llawn o amgylchiadau ariannol y defnyddwyr gwasanaeth cyfredol a rhoi cyfnod rhesymol o rybudd o'r taliadau uwch er mwyn rhoi digon o amser i ddefnyddwyr gwasanaeth gomisiynu darparwr newydd o'r sector annibynnol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yn ogystal, bydd gwasanaethau cymorth ac eiriolaeth ar gael i unigolion pan ymgynghorir gyda nhw ar yr opsiynau a phan weithredir unrhyw newidiadau unwaith y bydd y Pwyllgor Gwaith wedi gwneud penderfyniad.

**1.7 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini gymeradwyo bod y swyddogion yn ymgynghori ar yr opsiynau arfaethedig hyn gyda'r defnyddwyr gwasanaethau a fyddai'n cael eu heffeithio ganddynt ac y dylid cynnwys unrhyw daliadau uwch eraill a gadarnheir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad hwn cyn cyflwyno argymhellion terfynol i'r Pwyllgor Gwaith.**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **21 Tachwedd 2016** |
| **Pwnc:** | **Newid i'r Polisi Codi Tâl – Gwasanaethau Teleofal** |
| **Deilydd Portffolio:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Dafydd Bulman – Rheolwr Trawsnewid Strategol a Busnes**<br>**01248 752013**<br>**dafyddbulman@ynysmon.gov.uk**<br>**Rachel Williams – Rheolwr Busnes Darparu**<br>**01248 752066**<br>**Rachelwilliams@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Holl aelodau** |

**Materion ar gyfer Sgriwtini**

1. **Mae'r trefniadau cyfredol mewn perthynas â chodi am wasanaethau teleofal yn anhrefnus ac yn annheg.**
2. **Dylid adolygu'r trefniadau er mwyn sefydlu system deg sy'n gweithio'n dda ac sydd hefyd yn sicrhau y ceir lefel briodol o incwm o'r gwasanaeth.**
3. **Mae 4 opsiwn ar gael i ni, sef**
    - **Parhau â'r drefn bresennol.**
    - **Aildrefnu graddol yn cyfateb i 33% y flwyddyn dros 3 mlynedd.**
    - **Aildrefnu graddol yn cyfateb i 50% y flwyddyn dros 2 flynedd.**
    - **Aildrefnu costau'n llawn ar gyfer 2017/18.**
4. **Rydym yn bwriadu ymgynghori ar yr opsiynau hyn gydag unigolion a effeithir rhwng Tachwedd ac Ionawr a bydd argymhelliad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2017.**

1.0 Cyflwyniad

Mae Teleofal yn wasanaeth sy'n galluogi pobl, yn arbennig unigolion hŷn a mwy bregus, i fyw'n annibynnol a diogel yn eu cartrefi eu hunain. Mae'n cynnwys gwasanaethau sy'n ymgorffori synwyryddion personol ac amgylcheddol yn y cartref, sy'n golygu bod pobl yn gallu byw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartref eu hunain am gyfnod hirach. Mae monitro 24 awr yn sicrhau, petai rhywbeth yn digwydd, y gweithredir ar yr wybodaeth yn syth gan roi'r ymateb mwyaf addas ar waith.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi 1513 o unigolion ar hyd a lled yr ynys sy'n cynnwys 248 unigolyn o Wynedd. Ers 2011 mae agwedd fonitro'r gwasanaeth yn cael ei

wneud yn rhanbarthol. Gwasanaeth Monitro Galw Gofal sy'n gwneud y gwaith monitro ar hyn o bryd, o dan adain Cyngor Sir Conwy sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth monitro ar ran y pum Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.

**1.1 Crynodeb o'r Synwyryddion sydd ar gael:**

- Haen 1 – Llinell bywyd a synhwyrydd tân
- Haen 2 – Synwyryddion Amgylcheddol
- Haen 3 – Synwyryddion Personol

**1.2 Costau cyfredol ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth:**

| Haen 1.<br>Offer, Gwasanaeth a Chynnal a Chadw | 2016/17<br>Cost fesul Chwarter | Nifer yr unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth (Dyddiad y Sampl – Gorffennaf 2016) |
|---|---|---|
| Pecyn Teleofal sylfaenol | £45.24 | 243 |
| Teleofal 2007 i 2009 cyn newid y polisi codi tâl | £22.05 | 83 |
| Gofal Môn – Ynys Môn (cyn 2007) | £27.04 | 75 |
| Gofal Môn - Gwynedd (cyn 2007) | £39.00 | 83 |
| Unigolion sy'n derbyn credyd pensiwn ac sy'n derbyn cymhorthdal gan Cefnogi Pobl | Cost y gwasanaeth i'r defnyddiwr - £17.03 y chwarter.<br>Cost i Cefnogi Pobl £18.33 | 129 |
| **Haen 2 a Haen 3.<br>Offer, Gwasanaeth a Chynnal a Chadw** | **2016/17<br>Cost fesul Chwarter** | **Nifer yr unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth** |
| Pecyn personol ac amgylcheddol | £90.22 | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Unigolion sy'n derbyn credyd pensiwn ac sy'n derbyn cymhorthdal gan Cefnogi Pobl | Cost y gwasanaeth i'r defnyddiwr - £56.03 y chwarter.<br>Cost i Cefnogi Pobl £18.33 | 6 |
| Haen 1, Haen 2 a Haen 3.<br>Offer, Gwasanaeth a Chynnal a Chadw | 2016/17<br>Cost fesul Chwarter | Nifer yr unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth |
| Wedi'i ariannu'n llawn gan Cefnogi Pobl | £18.33 | 31 |
| Wedi'i ariannu gan GIP (Gofal Iechyd Parhau)– y grant yn talu'r holl gostau felly nid oes cost i'r defnyddiwr | Dim | 745 |
| Costau Blynyddol | 2016/17<br>Cost fesul Chwarter | Nifer yr unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth |
| Gwasanaeth a Chynnal a Chadw | £101.40 | 86 |
| Gwasanaeth yn unig | £65.52 | 27 |
| Cost arsefydlu unwaith ac am byth | £40.52 | |

Gan fod costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn yn amrywio am nifer o resymau hanesyddol mae angen aildrefnu graddol er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae trefniadau ffioedd cyfredol yn gymhleth ac yn ein barn ni mae angen safoni ffioedd er mwyn sicrhau tegwch a lleihau'r costau gweinyddol sydd ynghlwm â'r system bresennol.

**Taliadau Arfaethedig:**

| **Haen 1.**<br><br>**Offer, Gwasanaeth a Chynnal a Chadw** | **Costau cyfredol**<br><br>**Cost fesul Chwarter** | **Taliadau Arfaethedig**<br><br>**Cost fesul Chwarter** |
|---|---|---|
| Pecyn Teleofal sylfaenol | £45.24 | £45.24 |
| Teleofal 2007 i 2009 cyn newid y polisi codi tâl | £22.05 | £45.24 |
| Gofal Môn – Ynys Môn (cyn 2007) | £27.04 | £45.24 |
| Gofal Môn - Gwynedd (cyn 2007) | £39.00 | £45.24 |
| Unigolion sy'n derbyn credyd pensiwn ac sy'n derbyn cymhorthdal gan Cefnogi Pobl | Cost y gwasanaeth i'r defnyddiwr £17.03<br>Cost i Cefnogi Pobl £18.33.<br><br>£35.36 | Cost y gwasanaeth i'r defnyddiwr £21.97.<br>Cost i Cefnogi Pobl £23.27<br><br>£45.24 |

| **Haen 2 a Haen 3.**<br><br>**Offer, Gwasanaeth a Chynnal a Chadw** | **Costau cyfredol**<br><br>**Cost fesul Chwarter** | **Taliadau Arfaethedig**<br><br>**Cost fesul Chwarter** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Pecyn personol ac amgylcheddol | £90.22 | £90.22 |
| Unigolion sy’n derbyn credyd pensiwn ac sy’n derbyn cymhorthdal gan Cefnogi Pobl | Cost y gwasanaeth i’r defnyddiwr £56.03<br>Cost i Cefnogi Pobl £18.33<br>£74.36 | Cost y gwasanaeth i’r defnyddiwr £68.88.<br>Cost i Cefnogi Pobl £23.34<br>£90.22 |

| **<u>Haen 1, Haen 2 a Haen 3.</u>**<br>**<u>Offer, Gwasanaeth a Chynnal a Chadw</u>** | **Costau cyfredol**<br>**Cost fesul Chwarter** | **Taliadau Arfaethedig**<br>**Cost fesul Chwarter** |
|---|---|---|
| Wedi’i ariannu’n llawn gan Cefnogi Pobl | £18.33 | £45.24 |
| Wedi’i ariannu gan CHC – y grant yn talu’r holl gostau felly nid oes cost i’r defnyddiwr | £0 | £0 |

| **Costau Blynyddol** | **Costau cyfredol**<br>**Cost fesul Chwarter** | **Taliadau Arfaethedig**<br>**Cost fesul Chwarter** |
|---|---|---|
| Gwasanaeth a Chynnal a Chadw | £101.40 | £101.40 + codiad chwyddiant |
| Gwasanaeth yn unig | £65.52 | £65.52 + codiad chwyddiant |
| Tâl gosod unwaith yn | £40.52 | £40.52 +codiad |

| | | |
|---|---|---|
| unig | | chwyddiant |

Sefydlwyd grŵp adolygu i gynnal yr arolwg a chafodd 4 opsiwn eu hadnabod.

**1.3** Rhoddodd y grŵp adolygu ystyriaeth i 4 opsiwn:

| **Opsiwn** | **Gweithredu a incwm ychwanegol** | **Buddion** | **Risgiau** |
|---|---|---|---|
| 1 | Parhau â'r drefn bresennol | • Dim newid i ddefnyddwyr y gwasanaeth | • Anghyfartaledd o safbwynt costau i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn parhau.<br>• Ddim yn sicrhau incwm cyson/uwch. |
| 2 | Aildrefnu graddol yn cyfateb i 33% y flwyddyn dros 3 mlynedd<br><br>Blwyddyn 1 £6,777<br><br>Blwyddyn 2 £13,555<br><br>Blwyddyn 3 £20,329 | • Cynnydd graddol yn y costau i ddefnyddwyr y gwasanaeth dros gyfnod o 3 mlynedd.<br>• Llai o faich ariannol ar unigolion.<br>• Caniatáu defnyddwyr y gwasanaeth i gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwr arall pe dymunir. | • Diffyg cydraddoldeb ymysg defnyddwyr y gwasanaeth yn ystod y cyfnod o 3 mlynedd.<br>• Ddim yn sicrhau incwm cyson/uwch am 3 mlynedd.<br>• Lefel uwch o gwynion. |
| 3 | Aildrefnu graddol yn cyfateb i 50% y flwyddyn dros 2 flynedd<br><br>Blwyddyn 1 £10,163<br><br>Blwyddyn 2 £20,329 | • Cynnydd graddol yn y costau i ddefnyddwyr y gwasanaeth.<br>• Llai o faich ariannol ar unigolion.<br>• Caniatáu defnyddwyr y gwasanaeth i | • Diffyg cydraddoldeb ymysg defnyddwyr y gwasanaeth yn ystod y cyfnod o 2 flynedd.<br>• Ddim yn sicrhau incwm cyson/uwch am 2 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwr arall pe dymunir. | flynedd.<br>• Lefel uwch o gwynion. |
| 4 | Aildrefnu costau'n llawn ar gyfer 2017/18<br><br>Blwyddyn 1 £20,329 | • Manteisio i'r eithaf ar incwm.<br>• Llai o amser gweinyddu<br>• Cydraddoldeb ymysg defnyddwyr y gwasanaeth. | • Colli cwsmeriaid y bernir eu bod yn fregus ac a allai fod mewn perygl.<br>• Lefel uwch o gwynion. |

**1.4 Argymhelliad:**

**Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini gymeradwyo bod swyddogion yn cynnal cyfnod ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth fydd yn cael eu heffeithio ynglŷn â'r opsiynau arfaethedig hyn i'r Pwyllgor Gwaith.**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD:** | **21/11/2016** |
| **PWNC:** | **GWASANAETH ANABLEDD DYSGU CYMUNEDOL** |
| **AELOD PORTFFOLIO (S):** | **Y CYNGHORYDD ALED MORRIS JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **ALWYN JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BARBARA WILLIAMS**<br><br>**01248 752738**<br>**barbarawilliams@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

1.0 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn y datganiad sefyllfa hwn mewn perthynas â'r gwasanaeth Anabledd Dysgu.

1.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cymeradwyo'r datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y gwasanaeth hwn.

## 2.0 RHESYMAU.

2.1 Mae'r adroddiad hwn, y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Sgriwtini ym mis Mawrth 2016, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau yn y gwasanaeth Anabledd Dysgu ac yn benodol yn y Rhaglen Drawsnewid o fewn y gwasanaeth.

2.2 Mae'r rhaglen drawsnewid yn uchelgeisiol ac yn drawsbynciol ac ar hyn o bryd mae'n cynorthwyo'r prosiectau canlynol:

- Allanoli'r cynlluniau byw â chymorth (mewnol)
- Gwahodd tendrau ar gyfer cynlluniau byw â chymorth (allanol)
- Adolygu ac ailfodelu'r holl wasanaethau dydd / cyfleon gwaith – sef y rhai mewnol a'r rhai a gomisiynir yn allanol
- Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol (ar gyfer pob grŵp cleient)
- Datblygu Modelau Darparu Amgen (ar gyfer pob grŵp cleient)

2.3 Hyd yma, cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol o fewn cwmpas y prosiectau a nodir uchod:

- Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, staff, teuluoedd a darparwyr.

- Cwblhau crynodeb byr o anghenion defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer cynlluniau byw â chymorth (mewnol)
- Trafodaethau am fanylebau gwasanaeth a dogfennau tendro
- Ymgysylltu â'r Tîm Cefnogi Pobl ynghylch gostyngiad yn y cyllid
- Comisiynu adolygiadau allanol o wasanaethau byw â chymorth a gwasanaethau dydd / cyfleon gwaith.
- Modelu ariannol
- Ymgysylltu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol gan gynnwys sesiwn ymgysylltu ā rhanddeiliaid a hwyluswyd mewn partneriaeth â Lleisiau Lleol.

2.4 Mae'r cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer pob un o'r prosiectau yn fanwl a chynhwysfawr. Bydd gweithgareddau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- <u>Cynlluniau Byw â Chymorth (mewnol):</u> adolygu casgliadau'r adroddiad allanol. Cynnal dadansoddiad manwl o'r model cymorth ym mhob tŷ. Cwblhau manyleb gwasanaeth drafft a dogfennau tendro a chynnal ymarferiad comisiynu ar y cyd mewn cydweithrediad â'r Tîm Cefnogi Pobl.
- <u>Cynlluniau Byw â Chymorth (allanol):</u> cynnal asesiad manwl o effaith y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl a'r targedau arbedion corfforaethol. Cwblhau manyleb gwasanaeth drafft a dogfennau tendro a chynnal ymarferiad comisiynu ar y cyd mewn cydweithrediad â'r Tîm Cefnogi Pobl. Cytuno model ar gyfer cyd-gynhyrchu gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth.
- <u>Gwasanaethau dydd / cyfleoedd gwaith allanol:</u> datbtblygu manyleb gyda golwg ar ddatblygu cytundeb fframwaith sy'n seiliedig ar y model Cymorth Gweithredol ac sy'n canolbwyntio ar gynnydd.
- <u>Gwasanaethau dydd Mewnol:</u> cynnal gwerthusiad manwl o'r opsiynau i gefnogi penderfyniad i ailfodelu neu ddigomisiynu.
- <u>Model Darparu Amgen;</u> mae'r prosiect hwn yn cael ei arwain yn gorfforaethol.
- <u>Taliadau Uniongyrchol:</u> datblygu cynllun hyfforddiant ar gyfer staff mewnol, gomisiynu gwasanaeth cymorth newydd, ailwampio'r strategaeth wybodaeth, sefydlu grŵp ffocws i ddefnyddwyr gwasanaeth, lansio gwasanaeth newydd.

**Rhaglen Oedolion Iau - Cynllun Gwaith**

| Rhif | Prosiect | Nodau | Gyrwyr | Dyddiad cwblhau gwreiddiol | Dyddiad cwblhau diwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cynlluniau Byw â Chymorth (mewnol) | Allanoli'r ddarpariaeth fewnol | Arbedion ariannol / Toriadau i'r cyllid Cefnogi Pobl | 12/16 | 12/17 |
| 2 | Cynlluniau Byw â Chymorth (allanol) | Aildendro'r holl ddarpariaeth allanol | Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog / Toriadau i'r cyllid Cefnogi Pobl/ Arbedion ariannol | 03/17 | 12/17 |
| 3 | Gwasanaethau Dydd mewnol | Adolygu'r ddarpariaeth i'r dyfodol | Arbedion ariannol / Cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 03/17 | 12/17 |
| 4 | Gwasanaethau Dydd Allanol | Ailfodelu gwasanaethau | Arbedion ariannol / Cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 03/17 | Dim newid |
| 5 | Taliadau uniongyrchol | Cynyddu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol, lansio'r gwasanaeth newydd | Arbedion ariannol / Cydymffurfio â'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 03/17 | Dim newid |
| 6 | Modelau Darparu Amgen | Ystyried dichonoldeb Canolfan Byron fel Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol | Arbedion ariannol / Cydymffurfio â'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 06/16<br>Wedi cau | Dim newid |
| 7 | Trafnidiaeth | Ystyried opsiynau trafnidiaeth gwahanol | Arbedion ariannol | 06/17 | Dim newid |

Awdur: Barbara Williams
Teitl y Swydd: Rheolwr Gwasanaeth - Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl
Dyddiad: 26/10/2016

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SGRIWTINI

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cadeirydd: Y Cynghorydd Merion Jones
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Gwilym O Jones

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o Mai 2016 at Mai 2017. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Anwen Davies (Rheolwr Sgriwtini Dros Dro)
Ffôn: 01248 752578
E-bost: AnwenGDavies@ynysmon.gov.uk

## PWRPAS YCHWANEGU'R EITEM AR RAGLEN Y PWYLLGOR SGRIWTINI:

- Trawsnewid Gwasanaethau
- Monitro Perfformiad, Cyllideb a Partneriaethau
- Sgriwtini cyn penderfyniad
- Datblygu Polisi / Ymgynghoriad
- Cais gan Bwyllgor / Aelod



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| **12 Mai 2016** | Ethol Cadeirydd Pwyllgor | Penodi Cadeirydd | Ystafell Pwyllgor 1 / 3.30 yh |
| | Ethol Is-Gadeirydd y Pwyllgor | Penodi Is-Gadeirydd | |
| | | | |
| **23 Mai 2016** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 4 2015-2016 | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Gyllideb Refeniw chw 4 2015-16 | Monitro Cyllideb | |
| | Gyllideb Gyfalaf chw 4 2015-2016 | Monitro Cyllideb | |
| | Cynllun Gweithredu mewn ymateb i adroddiad AGGCC | Cais gan Aelod ( cyfeirnod pwyllgor: 15/12/15) | |
| | Costau Ymgynghorwyr | Cais gan Aelod (cyfeirnod at wybodaeth perfformiad ch3 – Mawrth 2016) | |
| | Adolygu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion | Trawsnewid | |
| | | | |
| **11 Gorffennaf 2016** | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2015-2016 ( Gwasanaethau Cymdeithasol) | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Adroddiad Blynyddol Cwynion- Gwrando a Dysgu o Gwynion (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Monitro Perfformiad | |
| | | | |
| **12 Medi 2016** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 1 2016-2017 | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Gyllideb Refeniw chw 1 2016- 2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Gyllideb Gyfalaf chw 1 2016-2017 | Monitro Cyllideb | |





Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| | Tendro gofal cartref ar Ynys Môn | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Adroddiad Panel Canlyniad Sgriwtini- Diogelwch Corfforaethol | I'w gymeradwyo gan bwyllgor sgriwtini | |
| | Adroddiad Panel Canlyniad Sgriwtini- Gosod Tai yr Awdurdod (Tai Gwag) | I'w gymeradwyo gan bwyllgor sgriwtini | |
| | | | |
| **19 Hydref 2016** | Cynigion Cyllideb 2017-2018 | Sgriwtini cyn penderfyniad | Siambr y Cyngor / 2yh |
| | Cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori - Cynigion Cyllideb 2017-2018 | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **21 Tachwedd 2016** | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 2 2016-2017 | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yh |
| | Gyllideb Refeniw Chw 2 2016- 2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Gyllideb Gyfalaf Chw 2 2016-2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Trawsnewid Gwasanaeth Anableddau Dysgu<br>( Er gwybodaeth) | Cais gan Aelod am adolygiad ar ôl 6 mis( cyfeirnod pwyllgor: 11/4/16) | |
| | Gwasanaethau Oedolion - Taliadau Gofal Cartref a Theleofal | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | Adroddiad Blynyddol Perfformiad Llyfrgelloedd 2015/16 | Monitro Perfformiad | |
| | Penodi aelod cyfetholedig o Medrwn Môn<br>**[i'w gadarnhau]** | Nid yn berthnasol | |





Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad / Amser Cychwyn |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **6 Chwefror 2017** | Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gyllideb Drafft 2017-2018 y Pwyllgor Gwaith **(YB)** | Sgriwtini cyn penderfyniad | Ystafell Pwyllgor 1 / 10yb a 2 yh |
| | Trawsnewid Gwasanaethau Llyfrgelloedd **(YP)** | Sgriwtini cyn penderfyniad | |
| | | | |
| **13 Mawrth 2017** | Gwasanaethau Plant – Adroddiad Arolygu AGGCC | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | Ymateb yr Awdurdod Lleol i Adroddiad Arolygu AGGCC – Gwasanaethau Plant | Monitro Perfformiad | |
| | Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chw 3 2016-2017 | Monitro Perfformiad | |
| | Gyllideb Refeniw Chw 3 2016- 2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Gyllideb Gyfalaf Chw 3 2016-2017 | Monitro Cyllideb | |
| | Perfformiad Gwasanaethau Plant | Monitro Perfformiad | |
| | Moderneiddio Gwasanaeth Anstatudol Hamdden (cyfnod o 3 blynedd) **[I'w gadarnhau]** | Trawsnewid | |
| | | | |
| **10 Ebrill 2017** | Eiddo- Adolygiad o Bapur Gwelliant Man ddaliadau - i'w gadarnhau oherwydd cyfnod cyn etholiad | Monitro Perfformiad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2 yh |
| | | | |